


ECO'R WYDDFA

Rhif 177

MAWRTH 1992

Pris 25c.

ANRHYDEDDU CHWARAEWYR Y FRO — MICHAEL AR Y BRIG —



Yr ail fis yn olynol i Michael Wroe ymddangos ar dudalen flaen yr Eco — ac yn gwbl haeddianol. Dyma fo y tro hwn yn derbyn Tlws Chwaraewr y Flwyddyn yn Arfon gan Cliff Morgan.

Cafwyd noson lwyddiannus eto eleni yn Theatr Seilo. Roedd cyfraniad dau o drigolion yr ardal, Aled Roberts a Jennie Fletcher, fel cyflwynwyr y noson yn gyfraniad sylweddol a graenus. Roedd araith Cliff Morgan — cyn ddewin y bêl hirgron — yn amserol, graenus a pherthnasol.

Yn dilyn llwyddiant Colin Jones y llynedd, i fro'r Eco y daeth y prif dlws eto eleni. Y sgiwr hynod o addawol **MICHAEL WROE** a gipiodd y tlws am eleni. Fe'n hatgoffwyd mai dim ond o drwch blewyn y methodd Michael a bod yn rhan o garfan Prydain yn y Gemau Olympaidd gyfredol yn Albertville. Yn ystod 1991 Michael oedd pencampwr sgïo 'downhill' Cymru, Lloegr a Phrydain. Tipyn o gamp i ŵr ifanc sy'n gorfod teithio'n helaeth i ymarfer a chystadlu yn ogystal â'r straen o chwilio am noddwyr. Oes yna neges yma fod dau gampwr sy'n gorfod gwneud llawer drostynt eu hunain sydd wedi cipio'r prif dlysau am ddwy flynedd yn olynol? Tybed a yw'r rhai sy'n rhan o'r gemau torfol ond yn cymryd rhan hyd nes y daw eraill i wneud y trefniadau drostynt? Onid hunan-ddisgyblaeth ac ymroddiad sy'n amlygu y gwir

bencampwr?

Yn ogystal â'r tlysau fe gyflwynir tystysgrifau i rai o drigolion Arfon sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol dros nifer o flynyddoedd. Mae'r tystysgrifau hyn er anrhydedd yn gryn glod i'r derbynnnydd.

Fe gyflwynwyd tair tystysgrif. I Sheila Morrow o Fangor, gyda 112 o gapiau hoci tros Gymru oedd un ac fe ddaeth y ddwy dystysgrif arall i fro'r Eco.

Ken Jones, un o sylfaenwyr Ras yr Wyddfa oedd yr ail. O'r ras gyntaf yn 1976, pan oedd 86 yn rhedeg, tyfodd y ras i fod yn rhyngwladol gyda 600 yn rhedeg yn 1991. Ken hefyd yw un o sylfaenwyr Rhedwyr Eryri (Eryri Harriers), ac ef yw eu Llywydd Er Anrhydedd. Ers 1969 bu'n aelod brwd o dîm Badminton Llanberis — clwb sydd â pholisi pendant i feithrin ieuencid.

Joe Brown, y dringwr byd enwog oedd y trydydd. Ers 25 o flynyddoedd bu'n byw yn Llanberis ac ef, yn anad neb arall, fu'n gyfrifol am safoni nifer o ddringfeydd Dyffryn Peris.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd am eu hymroddiad, ac am estyn yr her i ni fynd allan i ymdrechu.

CYSWLLT Â'R INDIA

GWENAN AR EI Ffordd



O Fethel i Calcutta: Ers degau o flynyddoedd bellach bu'r Fam Theresa yn procio cydwybod llawer ohonom sy mor ddedwydd ein byd, ac eto yn achwyn gymaint. Y mae ei Christnogaeth ar waith yn slymiau Calcutta yn esiampl a her. I'r ddinas hon sy'n llawn o dlodi ac angen y bydd merch o Fethel yn mentro ym mis Mai eleni. Ar hyn o bryd mae Gwenan Roberts, 14 Stâd Eryri, yn gweithio fel Therapydd laith a Lleferydd Arbenigol i Awdurdod Iechyd Gwynedd. Bu yn y swydd am 11 mlynedd yn arbenigo ym maes anfantais meddwl ers chwe mlynedd. Môn yw ei hardal waith gan weithio gyda phlant ac oedolion sydd ag anawsterau dysgu dwys. Rhan bwysig o'i gwaith yw hyfforddi gwahanol alwedigaethau sy'n ymwneud â phobl gyda phroblemau cyfathrebu.

O fis Mai bydd Gwenan yn gweithio'n wirfoddol, am chwe mis, fel Therapydd laith a Lleferydd mewn ysgol arbennig yn Calcutta a'i phrif ddyletswydd fydd hyfforddi athrawon yn y maes arbennig yma. Y mae'r ysgol yn derbyn plant gyda anafanteision meddwl, corfforol, clywed ac ymddygiad. Daw'r disgyblion o bentrefi cyfagos yn ne Calcutta ac maent o gefndiroedd cymdeithasol gwahanol. Prif fwriad yr ysgol yw datblygu ymwybyddiaeth y cyhoedd o anabledd yn gyffredinol.

Bydd Gwenan yn gweithio dan

adain yr elusen 'Action Health 2000' sy'n canolbwyntio ar hybu iechyd ac ansawdd bywyd i rai o drigolion tlotaf y byd. Oherwydd prinder cyllid nid oes gan yr elusen y modd i ariannu eu gweithwyr, felly mae'n ofynnol i'r gwirfoddolwyr chwilio am noddwyr.

Amcangyfrifir y bydd taith Gwenan yn costio £1,800 ac fe fyddai yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniad. Eisoes mae nifer o gymdeithasau ac unigolion lleol wedi cyfrannu. Gellir cysylltu â Gwenan a Felinheli 671022. Dymunwn pob bendith iddi ar ei menter clodwiw.

Llun: Richard Lloyd Jones, y cwisfeistr, yn cyflwyno sic am £104 i Gwenan fel cyfraniad tuag at ei thaith i Calcutta. Cyfranwyd yr arian gan selogion cwisiau Y Bedol.

TERRY WEDI DYCHWELYD



Yn ystod mis Chwefror bu Terry Lloyd Jones o Lanrug yn gweithio fel aelod o dîm Mr Tolia a Dr Cooper o Ysbyty Gwynedd yn Ysbyty Chikrakoot yn yr India. Cafodd dros 2,000 o blant driniaeth ar eu llygaidd yn ystod wythnos gyntaf eu arhosiad. Yna ar ôl y prysurdeb mawr cafodd gyfle i ymweld ag Agra, Jaipur a Delhi Newydd. 'Profiad bythgofiadwy', yn ôl Terry. Gobeithiwn y gall adrodd peth o'i hanes yn yr Eco yn fuan.

**CYHOEDDIAD PWYSIG
YNGLŷN A DYFODOL
YR ECO
— TUDALEN 10**

HWYL, A DIOLCH ANTI MERI!



Diwedd cyfnod yn ysgol Tanycoed. Trowch i newyddion Penisarwaun am y stori'n llawn.

ECO'R WYDDFA

RHIF 177
MAWRTH 1992

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhyallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115).

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stâd Tŷ
Hen, Waunfawr, (Waunfawr 599).

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAETHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerald, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Flynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 26
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN
MAWRTH 16
os gwelwch yn dda

Llythyrau

Dyfodol yr Arolygwyr

Annwyl Olygydd,

Ar ôl y disgwyl a'r dyfalu, gwnaeth
yr Ysgrifennydd Gwladol, David
Hunt, y cyhoeddiad am ddyfodol
Arolygwyr ei Mawrhydi yng
Nghymru. A byrdwn ei neges? Dilyn
Lloegr, newid y system bresennol
ac ad-drefnu'r gwasanaeth —
gwasanaeth sydd wedi cyfrannu
cymaint i addysg yn gyffredinol ac
yn arbennig i'r Gymraeg;
gwasanaeth sydd wedi adrodd yn
onest a diduedd ar sefyllfa addysg
a'r Gymraeg yn ein hysgolion ers
dechrau'r ganrif.

Bwriad y llywodraeth bresennol
yw cael gwared ar ddwy ran o dair
o'r arolygwyr a newid rôl y rhai a
fydd yn weddill. Golyga hyn na
fyddant yn arolygu ysgolion fel o'r
blaen. Yr awgrym yw nad ydynt
bellach yn gymwys i wneud y
gwaith. Timau preifat fydd wrthi o
hyn ymlaen — pobl wedi ymddeol
ac amaturiaid, a gwaith yr
arolygwyr (y rhai fydd ar ôl) fydd
gwneud yn siwr fod y bobl hyn yn
gymwys i'r gwaith. Hynny yw, heb
fod yn ddigon da i wneud y gwaith
eu hunain, ond eto i gyd yn ddigon
da i fynegi barn am y timau. A oes
unrhyw synnwyr yn hyn?

Newid y drefn ar adeg
dyngedfennol ym myd addysg, heb
roi unrhyw ystyriaeth i'r effaith
andwyol a gaiff ar safonau addysg
yn ein gwlad ac ar ddyfodol ein
plant. A allwn ni ganiatáu i hyn
ddigwydd? A allwn ni yng Nghymru
ganiatáu i'r gwasanaeth unigryw
hwn gael ei ddisodli gan dimau o
bobl na wyddant nemor ddim am
ddatblygiadau diweddar addysg?

Stori arall yw hi yn yr Alban. Yno
y mae'r arolygaeth yn cael ei
hymestyn i gyfarfod ag anghenion
addysgol y plant. Gallai pethau fod
yn wahanol yng Nghymru hefyd
petai'r Ysgrifennydd Gwladol yn
cydnabod fod addysg yng Nghymru
yn wahanol i'r hyn ydyw yn Lloegr.
Beth am anfon ato i ddweud?

ELISABETH DAVIES

(Ysgrifennydd
Cymdeithas y Gymraeg
mewn Addysg)

5 Maes Glasnant
Cwmffrwd, Caerfyrddin.

DAVID CLOUGH

Ynysoedd

WAUNFAWR

Ffôn: 282

Paentio a Addurno
Gwaith Atgyweirio
'Estimates' am ddim

Aduniad

Annwyl Olygydd,

Ymhellach i fy llythyr yn rhifyn
diwethaf o'r Eco yn awgrymu tybed
a oedd gan gyn-ddisgyblion Ysgol
Tanycoed, Penisarwaun, ddiddordeb
mewn cael aduniad cyn cau yr hen
ysgol, mae'n ymddangos fod nifer
dda wedi dangos diddordeb ond
ddim digon hyd yn hyn i alw rhyw
fath o bwylgor i wneud y
trefniadau. Fy unig bwrpas yn
anfon llythyr i'r Eco oedd canfod
maint y diddordeb trwy wyntyllu'r
syniad.

Os oes rhagor â diddordeb (hyd
yn hyn yr hen ddisgyblion o bentref
Brynrefail a'r cylch yw'r rhan fwyaf
o'r rhai sydd wedi cysylltu â mi),
tybed a fasant cystal â rhoi
gwybodaeth i mi o'u bwriad er
mwyn cael rhyw syniad a ddylid
cario 'mlaen â'r awgrym o gael
aduniad, dyweder mewn gwesty yn
Llanberis yn ystod misoedd yr haf.

Gyda diolch,

ROL WILLIAMS

Ardwyn, Pant y Waun
Waunfawr (Ffôn: Waunfawr 457)

GAIR GAN Y GOLYGYDDION

Unwaith eto rhaid i ni egluro beth yw
pwrpas ein swyddi fel golygyddion.
Mae nifer o eitemau yn ein cyrraedd
bob mis NAD YDYNT yn cael eu
cynnwys yn y papur — e.e. diffyg
gofod, deunydd wedi dyddio, deunydd
anaddas, ac yn y blaen. Does dim
rheidrwydd arnom i gynnwys POPETH
sy'n dod i law. Oherwydd hynny, rydym
o bryd i'w gilydd yn siomi ambell i
gyfranwr — (ac yn sathru cynn ambell
un arall) — ond dyna yw pwrpas
GOLYGU.

AR WERTH

DESG FECHAN, addas iawn i
gyfrifiadu, mewn coedyn du, tair
drôr un ochr a thair silff fechan ar yr
ochr arall — £20.

CAMERA S.L.R. CANNON AT.1, gyda
lens safonol;

lens 70mm — 210mm tele-photo
(£180 yn newydd);

lens 28mm ongl llydan;

2 x cyfnewydd.

Oll mewn cyflwr da ac mewn bag
pwrpasol — £240.

CAERNARFON 4669

CARU O.K.

Newydd ddechrau teithio o amgylch Ysgolion Uwchradd
Gwynedd mae 'Caru O.K.' — cynhyrchiad diweddaraf
Cwmni'r Frân Wen. Prosiect Theatr mewn Addysg yw 'Caru
O.K.' sy'n ymdrin â'r rhagfarnau a'r camagraffiadau
ynghylch HIV ac AIDS.

Ymdriniodd y Cwmni â'r pwnc
hwn yn hydref 1990 ar gyfer
disgyblion dosbarth chwech yn
Ysgolion Uwchradd Gwynedd a
myfyrwyr Colegau Addysg. Yn sgîl
llwyddiant y cynhyrchiad hwnnw
penderfynwyd ail gyflwyno prosiect
ar gyfer disgyblion dosbarth pump.

Cyn cychwyn ar y cyflwyniad
theatrig mae'r actorion yn cynnal
gweithgareddau i annog y
disgyblion i ymateb ac ymlacio.
Mae'r perfformiad ei hun yn un
dramatig ac emosiynol. Ar derfyn y
cyflwyniad bydd cymeriadau'r
ddrama yn cyflwyno gosodiadau o'r
perfformiad gan roi cyfle i'r
disgyblion leisio eu barn.

Bydd y Cwmni ar derfyn y daith
yn mynd ati i baratoi fideo o'r
cyflwyniad a fydd ar gael i ysgolion
ledled Cymru yn ddiweddarach.

Cafwyd cymorth ariannol gan yr
Uned Hybu Iechyd ym Mangor tuag

at ail-deithio'r cynhyrchiad hwn a
thuag at baratoi'r fideo. Bydd TAC
a'r Swyddfa Gymreig hefyd yn
cyfrannu tuag at gostau'r fideo.
Derbyniwyd cyfraniadau hefyd gan
amrywiol gynghorau Gwynedd.

I gyd-fynd â'r prosiect paratowyd
pecyn syniadau gan Shirley Owen,
Swyddog Cyswllt Ysgolion y
Cwmni sydd yn codi pwyntiau
trafod yn deillio'n uniongyrchol o'r
cyflwyniad yn ogystal â gwersi
addas i'w cyflwyno i ddisgyblion
Pumed Dosbarth i annog
trafodaeth.

Bydd y Cwmni yn teithio hyd
Fawrth 27ain a bydd wedi ymweld
â'r mwyafrif o Ysgolion Uwchradd
Gwynedd a dros 1,700 o
ddisgyblion yn cael bod yn rhan o'r
cyflwyniad.

Ceir perfformiadau yn Ysgol
Brynrefail, ddydd Llun a dydd
Mawrth, Mawrth 16 a 17.

GRADD ALLANOL Prifysgol Cymru

Mae Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn cynnig cynllun
i oedolion sy'n dymuno dilyn cwrs gradd trwy gyfrwng y
Gymraeg y tu allan i'r Coleg. Gellir astudio'r pynciau a ganlyn:
Cymraeg, Hanes Cymru, Drama, Addysg, Cerddoriaeth,
Llydaweg, Astudiaethau Crefydd.

At hyn, cynigir cwrs Cymraeg Rhan Un ar gyfer dysgwyr.

Os carech dderbyn rhagor o fanylion ynglŷn â'r cynllun, a ffurflen
gais, cysylltwch â:

A. Cynfael Lake, Swyddog y Radd Allanol,
CPC Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth
(Ffôn 0970-622049/50).



ENAIID CENEDL

Pwy yw'r Awdur?

Y mae i Gymru enaid, ei henaidd ei hun. A gall golli hwnnw. Gall addysg flodeuo, gall crefydd gryfhau, gall rhyddid ennill y dydd, gall y tlawd godi o'r llwch ac ymgryfhau, gall y goludog fod yn gadarn ac yn frigog fel y llawryf gwyrdd, tra enaid y genedl yn llescau a gwywo. Gall y genedl ymgolli yn yr ymerodraeth, a bod yn rhan farw yn lle bod yn rhan fyw, fel na chlywir ei llais mwy. A phe digwyddai'r trychineb hwnnw, byddai Cymru heb enaid, a'r byd yn dlotach. Pan ddaw ymdrech newydd dros ryddid a chrefydd, nid Cymru a godai'r faner; byddai ei llais hi yn fud.

Y mae i Gymru ei hiaith ei hun, ac ni fedr gadw ei henaidd hebddi. Y mae ynddi brydyddiaeth bywyd a gobaith mil o flynyddoedd wedi ei drysori.

Y mae yn enaid haner-effro Cymru ddefnydd llenyddiaeth odidog. Ar lenyddiaeth ddieithr, — a honno'n iaith ddieithr a masw y gwan, y gwrendy toraeth ein pobl ieuanc y dydd hwn. Os nad yw llenyddiaeth enaid Cymru i gydio yn ein plant, gwell iddynt fod yn anlythrennog, fel na chollant y chwaeth a'r dyhead a gadwodd y Mabinogion trwy genedlaethau di-ddysg a di-lyfr. Fy nghenedl, beth yw sefyllfa'r Gymraeg yn dy ysgolion?

Y mae i enaid Cymru ysbryd cerddoriaeth gyfrin, sydd eto heb gael llais, er y clywir sibwrdd ei nodyn mewn ambell hen alaw neu yn hwyl ambell gymanfa. Ni anwyd cenedl ag enaid mor llawn o gerddoriaeth ag enaid cenedl y Cymry.

Y mae enaid Cymru'n ddwys grefyddol, a'i lygaid ar y tragwyddol. Oherwydd hynny, oni ddylai'r weledigaeth fod yn glir?

Boed i Gymru bob llwyddiant. Os ceidw ei henaidd, daw yn un o arweinyddion y byd.

DYDDIADAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO AM 1992

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A	RHIF FFÔN
CHWEFROR	IONAWR 30	WAUNFAWR	Mrs NAN ROBERTS	Waunfawr 570
MAWRTH	CHWEFROR 27	LLANRUG	Mr IOLO LLYWELYN	Waunfawr 200
EBRILL	MAWRTH 26	CAEATHRO	Mrs BERYL ROBERTS	Caernarfon 3536
MAI	EBRILL 30	DEINIOLEN	Mr W. O. WILLIAMS	Llanberis 871259
MEHEFIN	MAI 28	BRYNREFAIL	Miss LOWRI P. ROBERTS	Llanberis 870580
GORFFENNAF	GORFFENNAF 2	BETHEL	Mr GERAINT ELIS	Felinheli 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 27	DINORWIG	Mr MEIRION TOMOS	Llanberis 870056
HYDREF	HYDREF 1	PENISARWAUN	Mrs ANN EVANS	Llanberis 872481
TACHWEDD	HYDREF 29	CWM-Y-GLO	Mrs IRIS ROWLANDS	Llanberis 872275
RHAGFYR	TACHWEDD 26	LLANBERIS	Mr GWILYM EVANS	Llanberis 872034

Dymunaf diolch i'r Cysylltwyr am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i fy nghynorthwyo i drefnu'r Rota am y flwyddyn.

HANES Y CAP COLLEDIG

ADOLYGIAD GAN ARWEL JONES

Who's Who of Welsh International Soccer Players

Yn ystod Hydref 1991 cyhoeddwyd un o'r llyfrau mwyaf cynhwysfawr a ysgrifenyddwyd erioed ar hanes chwaraewyr pêl-droed Cymru. Am y tro cyntaf cynhwysir rhwng cloriau'r llyfr *Who's Who of Welsh International Soccer Players* dros 600 o wŷr a gafodd y fraint o wisgo'r crys coch enwog.

Casglwyd ynghyd enwau chwaraewyr o wythdegau'r ganrif olaf hyd yr arwyr presennol. Yn wir llwyddwyd i gynnwys dros 500 o luniau o arwyr y ganrif.

Y ddau a fu'n chwiloa ac ymchwilio dros gyfnod o bedair mlynedd i hanesion yr arwyr yw Gareth M. Davies o Gaerdybi ac Ian Garland gynt o Gaernarfon. Ian gyda llaw yw cyd awdur (gyda W. Gray Thomas) y llyfr *The Canaries Sing Again*.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y llyfr yn rhywbeth i'w ryfeddu ato. Mae olion ymchwiliadau trwyadl iawn yma. Y mae'r manylion â ganlyn i'w cael am bob un o'r chwaraewyr: lle a dyddiad geni, ac os yn berthnasol lle a dyddiad marwolaeth; safle arferol y chwaraewr; taldra a phwysau; nifer o gapiau ac yn erbyn pwy; rhestr o'r clybiau y bu'n chwarae iddynt; anrhyddedau eraill; ac yna portread cynnil o'i fywyd a'i yrfa.

Cynhwysa wybodaeth am yr arwyr sydd ac a fu yn gysylltiedig â bro *Eco'r Wyddfa* — Dr R. H. Mills Roberts; Wyn Davies, Malcolm Allen a Leslie Boulter.

Y mae'r tri cyntaf yn adnabyddus iawn i ni yn y fro — ond pwy oedd Leslie Boulter? Brysiau i esbonio mai cysylltiad pell â'r fro sydd gan Leslie Boulter. Fe'i ganed yn Leslie Mervyn Boulter yng Nglyn Ebwy, ar Awst 31, 1913, ac fe fu farw ym Mhwlheli ar 14 o Dachwedd, 1975. Bu'n chwarae fel amatur i Arsenal cyn symud i Charlton Athletic a sefydlu ei hun fel chwaraewr proffesiynol yn 1932. Er i QPR ddangos diddordeb ynddo penderfynodd aros yn Charlton a sefydlu ei hun yn y tim cyntaf. Yn wir, cododd Charlton o waelodion y drydedd Adran (De) i ail safle yn y gynghrair gyntaf yn Lloegr mewn dau dymor. Enwir Leslie Boulter fel yr un a fu'n bennaf gyfrifol am y llwyddiant ysgubol hwn. Ymhen dwy flynedd llwyddodd Brentford ei berswadio i arwyddo cytundeb i chwarae iddynt hwy ac fe'i trosglwyddwyd yn 1939 am £6,000. Roedd hyn yn swm aruthrol am chwaraewr y pryd hynny.

Gan ei fod yn chwaraewr dawnus a chyfrwys gyda'r bêl penderfynodd Brentford dalu'r swm. Yn 1939 hefyd y cafodd ei unig gêm dros ei wlad yn erbyn Gogledd Iwerddon ar y Cae Râs (Gogledd Iwerddon 3, Cymru 1) a Boulter sgoriodd gol Cymru. Yn rhyfedd iawn, drwy amryfusedd, ni dderbyniodd Leslie Boulter ei gap. Daeth yr Ail Ryfel Byd ac aeth popeth yn angof. Gwasanaethodd yn yr Awyrlu yng Nghanaada. Dychwelodd i'r gêm yn 1947 ac fe ymunodd ac Alec Stock yn Yeovil Town. Ymhen deuddeng mis wedyn symudodd i



W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis
871470

Cottractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

Welsh International Soccer Players

Gareth M. Davies & Ian Garland



Bwllheli i gychwyn busnes ac fe'i apwyntiwyd hefyd yn reolwr/chwaraewr i'r dref.

Yr hyn sy'n ddirlgelwch yw y ffaith i Leslie Boulter fynd i'w fedd heb dderbyn ei 'gap'.

Onid beth yw cysylltiad Leslie Boulter a'r ardal?

Y mae wŷres yr arwr, Mrs Alison Morgan, yn byw ym Methel ac y mae hi a'i gŵr, Iolo, yn parhau â'r ymdrech i sicrhau fod y cap yn dod i'r teulu rhyw ddiwrnod. Y maent ar hyn o bryd mewn cysylltiad â swyddogion y Gymdeithas Pêl-droed. Rhaid peidio a digaloni — fe ddigwyddodd rhywbeth tebyg i William Owen o Groesoswallt — chwaraeodd dros ei wlad pan oedd yn laslanc ac fe dderbyniodd ei gap pan oedd yn 72 oed!

Dichon y cawn wybod am y canlyniadau yn un o rifynnau nesaf yr *Eco*.

Cyhoeddir *Who's Who of Welsh International Soccer Players* gan Bridge Books, 61 Park Avenue, Wrexham. Pris: £16.95.

Trowch i'r dudalen Chwaraeon am ychydig o ryfoddodau y dowch o hyd iddynt yn y llyfr diddorol yma.

Gwaith Teipio

Angen


YSGRIFENYDDDES

i deipio sgrïptiau,
llythyrau, eich
cofiant hyd yn oed?
Ffoniwch ar fyrder
C'fon 4339

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.

cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Clwb Pobl y Cwm: Ar Ionawr 23 ein gŵr gwadd oedd Mr Stewart Whiskin o Gaernarfon, a threuliwyd pŵn difyr iawn yn ei gwmni. Wedi ymdeol cymerodd Mr Whiskin ddiddordeb mewn hanes lleol Caernarfon a bu'n brysus yn casglu hen luniau a hanesion o'r Archifdy, gan eu crynhoi yn llyfryn diddorol dros ben. Cawsom weld y lluniau ar y sgrîn gyda gwybodaeth am yr achlysuron a'r dyddiadau, amryw o'r ganrif ddiwethaf. Diolch am weld chwalu rhai o'r hen annedd-dai, ond peth chwithdod ar ôl ambell le, fel yr Ysgol Rad a'r Pafiliwn. Diolchodd Mr Hughes, y llywydd, i Mr Whiskin, a rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs E. Hughes a Miss E. Hughes. Enillydd y raffl oedd Mrs M. Rowlands.

Ar Chwefror 9 pleser y llywydd oedd estyn croeso i'r Parch Gwynfor Williams, Llanberis. Bu Mr Williams yn sôn sut y daeth i lanw'r gwahanol swyddi a chyflawni'r dyletswyddau y bu mor weithgar a chyfrifol yn eu cylch yn ystod y blynyddoedd. Tra rhyfeddwn at y gwaith mawr a wna Mr Williams mewn cynifer o ffyrdd, hawdd sylweddoli iddo ef fwynhau pob gorchwyl a sialens, a phob cyfle i fod o gymorth i bobl ei fri, a hynny gydag anwyldeb a sirioldeb. Mawr yw ein baint o gael adnabod y rhai prin hyn. Diolchodd Mrs G. Chick i Mr Williams am roi o'i amser prin i ddod atom. Y gwestwagedd oedd Mrs M. Rowlands a Miss Megan Davies, ac enillydd y raffl oedd Mrs Glenys Pritchard.

Cydymdeimlo: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs M. Williams a Meira, Goleufryn yn eu profedigaeth o golli tad a thaid, Mr Henry Morris.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod i'r aelodau yn Hafan Elan, Llanrug, nos Lun, Chwefror 3. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi. Croesawyd Mrs Joan Williams yn ôl ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Cydymdeimlwyd â Mrs Dorothy Jones ar golli ei mham yn ddiweddar. Miss Margaret Griffiths oedd y wraig wadd a'i thestun am y noson oedd 'Bwyd Iach'. Paratodd Miss Griffiths amryw o brydau a chawsom eu blasu i gyd. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn. Diolchwyd iddi gan Mrs Joyce Ransom. Mrs Taylor roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Ransom. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos lau,

Mawrth 12, sef Cymun y Grawys yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug.

Marwolaeth: Yn dawel yng nghartref Dwynfa, Bontnewydd, ddydd Gwener, Ionawr 31, bu farw Mrs Nellie I. Williams, Fron Gader, yn 79 oed. Bu'r angladd ddydd Mercher, Chwefror 5, gyda gwasanaeth yn ei chartref ac yna yn dilyn yn Amlogfa Bangor gyda'r Parch Peter Pritchard yn gwasanaethu. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i merch Dorothy, a'i mab Brian a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Diolch:

Dymuna Marie ac Alan Jones, Mona, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Dewi Wyn.

Dymuna Mrs Dorothy Jones a'r teulu, Arosfa, Fron Gader, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

Dymuna teulu y diweddar John Henry Morris, Goleufryn, ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt. Diolch hefyd i'r meddygon teulu a'r nysus; Parchedig Gwynfor Williams ac i Mr Myrddin Pritchard am ei drefniadau.

Ysgol Gymuned Cwm y Glo: Dyma ni yn ail hanner y mis bach a phob math o bethau pwysig wedi digwydd i ni.

Pleser oedd croesawu rhieni plant B6 o Ysgol Cwm y Glo a Than-y-coed, Penisarwaun, i gyfarfod a gynhaliwyd yma er mwyn cyfarfod â Phennaeth a staff Ysgol Brynrefail er mwyn egluro'r drefn yno pan fydd y plant yn cychwyn ar ail ran eu gyrfa addysgol yn yr Ysgol Uwchradd.

Cawsom ymweliad gan PC665, yn holi oedd pawb yn bihafio. Gan fod plant da yma — addawodd alw eto i roi sgwrs ar Ddiogelwch y Ffordd.

Braf iawn oedd gweld Mrs Jean Hughes yn y gegin. Hi lanwodd y bwllch pan fu Mrs Orritt ar gwrs. A wyddoch chi be'? Dydy Mrs Hughes wedi colli dim o'i sgiliau coginio — mae ei 'puff' pestri mor ysgafn ag erioed!

Bu HTV yma un bore yn ffilmio plant B5 a B6. Sut a pham? Wel, ia, dyna oedd enw'r rhaglen a'r plant yn gofyn pob math o gwestiynau diddorol iawn, e.e. Pam fod chwanen yn gallu neidio cymaint? Pam fod

erosol yn ddrwg i'r byd? Sawl asgwrn sydd yn y sgerbwd dynol?

Os byddant wedi cael ateb — byddant i'w gweld ym mis Mawrth neu yn yr hydref ar yr injan bictiws!

Siom fawr yw gorfod dweud fod Miss Carol Ronchy wedi'n gadael. Bydd colled fawr ar ei hôl ond dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd yn Llanberis a diolch yn fawr am bob cymwynas. Cyflwynwyd anrheg i Miss Ronchy ar ran yr ysgol yn y gwasanaeth ar ei bore olaf yma a chan ei bod yn Ddydd Gŵyl Ffolant rhoddodd glamp o sws i Mr Williams! (peidiwch a dweud wrth ei wraig neu mi fydd hi, fel bechgyn yr ysgol, yn genfigenus!)

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri. Ffôn: 870491

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyr y clwb 1/2/92 yw — £35: Mrs L. Williams, Tan y Fron, Fachwen (182); £25: Mrs E. M. Evans, Craigwel, Llanberis (053); £15: Mr V. Jones, Maenol, Caernarfon (013); £10: Mrs G. Williams, Llain yr Ardd, Bethel (007); £5: Mrs G. Roberts, Merddyn Coch, Llanberis (109).

Clwb Eryri: O dan gadeiryddiaeth Mr Meurig Evans am y noson, cynhaliwyd cyfarfod misol o'r Clwb yng Ngwesty'r Gwynedd, nos Wener, 7fed Chwefror. Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol am 'Hanes Heddlu Sir Gaernarfon' gan y cyn-Brif Arolygydd John Emlyn Hughes; mynegwyd y diolchiadau gan Mr Alwyn Evans.

Y Swper Gŵyl Ddewi fydd y cyfarfod nesaf a gynhelir am 7.30 o'r gloch, eto yng Ngwesty'r Gwynedd, ar nos Wener, 6ed Mawrth.

Cymdeithas St. Peris a St. Padarn: Cynhaliwyd y Gymdeithas y mis yma ar nos Fercher, Chwefror 5, yng Ngwesty Dolbadarn, a chroesawyd Mrs Nia Lloyd Pugh, sydd yn ddarlithydd a therapydd tlysi yn Ngholeg Technegol Bangor. Dangosodd Mrs Lloyd Pugh ei sgiliau yn artistic a medrus iawn i'r aelodau. Diolchwyd iddi gan Mrs Margaret Griffiths. Cafwyd y baned arferol gan Mrs Beryl Owen a Miss Glenys Parry, gyda Mrs Maureen Lennon yn cynorthwyo. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Hilda Williams, gan Mrs Evelyn Williams.

Dyweddio: Cyhoeddir dyweddian Sioned, merch Mrs Marion Hughes a'r diweddar Mr Meirion Hughes, 7 Penrhyn Terrace, Bethesda, â Keith, mab Mr a Mrs Gwilym Jones, 88 Maes Padarn, Llanberis. Dymuniadau gorau oddi wrth y ddau deulu.

Mae Mr Jones yn brysus iawn y dyddiau yma yn gwneud Cacen Cyfeillgarwch Cwm y Glo. Mae'n cymryd wythnos a mwy i'w gwneud ac os am y resipi — anfonwch air yma, ati.

Ar Fawrth 20 (nos Wener) mae Cymdeithas Rhieni / Athrawon yr ysgol yn cynnal noson o chwarae Bingo yn neuadd yr ysgol. Pris mynediad fydd 25c, neu 15c i henoed a phlant. Dowch yn llw! Erbyn hynny, byddwch wedi bwyta'ch crempog.

Fe'ch gwelaf yn y Bingo, gobeithio. Tan hynny — i fyny bo'r nod. Hwyl fawr.

Diolch: Dymuna teulu y diweddar Kenneth M. Roberts, 25 Stryd Goodman, ddiolch yn fawr am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch arbennig i bawb a fu yn gymorth i Ken yn ystod ei waeledd hir. Hefyd diolch i'r Parch J. Pritchard, Mr M. Pritchard a Mr G. Jones, ac am y rhoddion ariannol a gyflwynwyd i Ysbyty Bryn Seiont, Plas Tre Marl a'r Hospis yn y Cartref.

Dathlu Pen-blwydd: Llonyfarchiadau calonog i Mrs Annie Mary Evans, 28 Stryd Goodman, ar gyrraedd 80 oed ar 5 Mawrth. Pen-blwydd hapus iawn i chi oddi wrth y teulu i gyd.

Llonyfarchiadau a phob dymuniad da i Lliffon Arwyn Ffoulkes, 84 Maes Padarn, ar dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed — oddi wrth ei deulu a'i ffrindiau i gyd.

Yr Ysgol Feithrin: Yn ystod mis Rhagfyr cynhaliwyd Bore Coffi a mins peis gyda chyngerdd Nadolig a'r plant bach yn canu ac actio 'Gŵyl y Geni'. Yr oedd yn fore pleserus iawn ac yn werth gweld y plant yn gwneud eu gwaith mor rhagorol ac yn mwynhau eu hunain. Dymuna'r mamau ddiolch i Anti Catherine ac Anti Jan am eu gwaith gyda'r plant.

Wythnos wedyn tro y plant oedd cael mwynhau eu hunain yn eu parti Nadolig a chael anrheg gan Siôn Corn. Diolch i bawb am ei drefnu.

Dymuna Catherine Williams ddiolch i Jean a Graham, Gwesty Tywysog Cymru, Llanberis, am drefnu raffl Nadolig pryd y cyfranwyd hanner yr elw, sef £200 tuag at yr Ysgol Feithrin. Hefyd am iddynt drefnu Bingo, ar Chwefror 12, tuag at y mudiad, ac fe wnaed elw o £135.00

Diolch yn fawr i'r pwyllgor, mamau a'r pentrefwyr am eu cefnogaeth i wneud y cyfarfodydd uchod mor llwyddiannus. Diolch yn fawr iawn.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

RHODDION

- £20: Di-enw, Cwm y Glo.
- £10: Teulu Llwyncoed Bach, Penllyn.
- £5: Efan a Helen Parri, Morwel, Ceunant; J. M. Hughes, Llanberis.
- £3: Teulu y diweddar J. Williams, 12 Maes Eilian, Dinorwig.
- £2: Mr a Mrs Gwilym Jones, 88 Maes Padarn, Llanberis; Mrs Blodwen Parry, 6 Bro Deiniol, Deiniolen; Paul a Martin, 5 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Davies, 9 Llys-y-Gwynt, Penisarwaun.
- £1: Mr a Mrs Eddy, Y Groeslon, Penisarwaun.

Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri

am brisiau rhesymol

ELWYN PRITCHARD

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Gwener

10.00 — 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau hyn ffoniwch

Llanberis 870922
neu Bangor 351427

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Diolch: Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Helen Roberts, Llwyncoed Bach, Penllyn, ddiolch i'r holl berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain annwyl. Diolch i Cymdeithas y Chwiorydd, Eglwys Brynrefail, am drefnu a gweinyddu lluniaeth yn y Ffestri ddydd yr angladd. Diolch am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Llanberis, ac i feddygon, gweinyddesau a staff y Feddygfa am eu gofal tyner. Diolch hefyd am arweiniad a gwasanaeth y Parchedig John Morris, B.D., ac i Mr Myrddin Pritchard, Llanberis, am y trefniadau trylwyr.

Taith hwylus: Dyna ein dymuniad i Miss A. M. Williams, Llys Arfon, ynghyd â'i chydymaith Miss Alice Williams, Caernarfon, pan fydd y ddwy yn hedfan, ar Chwefror 25, gan lario i ddechrau yn Hong Kong. Oddi yno byddant yn ymweld â Singapore lle bydd Miss A. M. Williams yn cyfarfod ffrind a wnaeth dros 30 mlynedd yn ôl tra ar daith i Oberamergau. Un o uchafbwyntiau'r gwyliau fydd ymweld â Sydney, Awstralia, a chyfarfod ag aelodau o'r teulu, sef Einir, Heddwyn a Llion, plant Mr a Mrs Owen Namur Jones, Pen y Bwlch gynt. Bydd Miss Alice Williams yn y cyfamser yn treulio'r wythnosau yn Melbourne yn ymwneud â'i phrif faes, sef Dawnsio Gwerin. Wedi ymuno â'i gilydd unwaith yn rhagor byddant yn teithio'n helaeth yn Victoria cyn ymweld â theulu y diweddar Mr Eurwyn Jones (7 Trem Eilian gynt) yn Seland Newydd. Bydd y daith gartref drwy Honolulu, San Fransisco ac Efrog Newydd. Edrychwn ymlaen am eu dychweliad fis Mai i adrodd yr hanes.

Sefydliad y Merched: Mr Arfon Evans o Fangor oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod y gangen, nos Lun, Ionawr 20fed, pryd y cafwyd sgwrs a rhaglen fideo am Rwsia. Gweinyddwyd y te gan Mrs Mai Davies a Mrs Gwenllian Edwards ac enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Euronwy Roberts, oedd Mrs Betty Owen. Cafwyd noson ddiddorol nos Lun, Chwefror 17eg, yng nghwmni Mrs Anita Long, Tan yr Onnen, yn adrodd ei hanes ac arddangos lluniau o'i gwyliau yn yr

India dros y Nadolig. Cydymdeimlwyd â Mrs Eleanor Williams yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer-yng-nghyfraith. Trefnwyd y baned gan Mrs Eirlys Williams a Mrs Euronwy Roberts ac enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Carol Houston, oedd Mrs Mai Davies. Croesawyd Miss A. M. Williams i'r cyfarfod gan ddymuno'n dda iddi ar ei gwyliau arbennig dramor. Derbynnir enwau i berfformiad Cwmni Hwyl a Fflag, 'Dim Byd Ynni' ar Fawrth 5ed yn Theatr Gwynedd, gan yr ysgrifenyddes, Mrs Betty Owen, gynted ag y bo modd. Edrychir ymlaen am noson hwyliog o gystadlaethau amrywiol yn yr Wyl Drama dan nawdd Sefydliad y Merched, a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys, Y Felinheli, nos Fwrth, Mawrth 31.

Dathlu 60 mlynedd: Bu rhaglen ar y radio'n ddiweddar yn olrhain hanes Côr Meibion Dyffryn Nantlle — 'Côr Leonard' fel yr adnabyddid ef gan hen wrandawyr 'Noson Lawen' o gofio eu perfformiadau cyson dan arweiniad C. H. Leonard o Neuadd y Penrhyn, Bangor. Wel, mae'r hen gôr yn dal i fynd o nerth i nerth ac mae amryw o'r aelodau presennol o ardal yr Eco — Brynrefail, Llanrug, Waunfawr a Bethel. Mae'r côr yn ymddangos yn gyson yng nghyngherddau i ymwelwyr yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, ac yno yn un o'r cyngherddau aeth 'stand' yr arweinydd ar goll! O hynny daeth y syniad i gadeirydd y côr gyflwyno astell newydd i'r arweinydd, Deio Morgan, a hefyd i nodi achlysur arbennig Jiwbili y Côr.

Cadeirydd y côr yw Mr Dafydd Ellis, Gweledfa, Brynrefail. Un o'i ddiddordebau yw gwaith coed ac aeth ati felly i adeiladu astell newydd. Fe'i gwelir yn y darlun wedi ei gwneuthur o bren onnen a phren rhosyn — wedi ei chyflwyno i'r arweinydd Deio Morgan a'r cyfeilydd Gwynedd Glyn, yng Ngwesty Dolbadarn yng nghinio blynyddol y côr.

Mae'r côr yn awr yn brysur yn paratoi ar gyfer cyngherddau Côr y Byd ym Mharc yr Arfau ym mis Mai; a Neuadd Albert yn Llundain ym mis Hydref. Maent hefyd yn edrych ymlaen am y tymor newydd yn y Fictoria, Llanberis.

BRUNEI AR 'HASH'

Pigion o ddyddiadur DELYTH EILIONWY

Wel, mae mis Ionawr bron drosodd ac rydw i'n brysur yn sgwennu adroddiadau'r plant yn ogystal â pharatoi ar gyfer noson rieni arall.

Ta waeth, mi fydd drosodd mewn ychydig, a bydd hanner tymor yma ymhen dim. Braf oedd cael dod adref dros y 'Dolig a chael gweld fy rhieni a'm ffrindiau unwaith eto. Pobl Pencae yr un mor groesawus ac erioed a thwrci Moi Rorsadd wedi plesio'n arw.

Ychydig o helyntion ar y ffordd nôl! Colli'r awyren o Fanceinion, a hynny'n golygu fy mod yn colli'r awyren i Singapore a'r un i Hong Kong hefyd. Y broblem fwyaf oedd bod un o'm ffrindiau yn fy nisgwyl yn Llundain a doedd ganddi ddim syniad beth oedd wedi digwydd i mi. Fe deithiodd hi yn ei blaen i Hong Kong a finna yn gorfod aros noson ychwanegol yn nhŷ Gwawr fy chwaer ym Manceinion.

Teimlad rhyfedd oedd teithio yr holl ffordd i Hong Kong ar fy mhen fy hun. Gadael fy nghôt ar ôl ar yr awyren yn Singapore ac yn sâl fel ci ar yr awyren i Hong Kong. Dyna beth ydy unigrwydd, sef bod yn sâl a'ch pen lawr y toiled a'r awyren heb orffen dringo i'r nen hyd yn oed.


Ta waeth, cyrraedd Hong Kong ac yn falch iawn o weld fod fy ffrind yno i'm cyfarfod. Wythnos fendigedig — drud ac oer ond am siopa bendigedig

a bwyd gwerth chweil.

Yn ôl ym Mrunei rŵan ers bythefnos a'r tywydd yn boeth ond yn wyntog ar yr un pryd. Wedi bod ar 'hash' y noson o'r blaen, sef grŵp o tua 40 o bobl (4 merch) yn rhedeg mewn ras drwy'r jyngh. Fi wrth gwrs oedd yr olaf i gyrraedd yn ôl a'r unig un a lwyddodd i ddisgyn i bwl o fwd. Trueni fy mod i'n gwisgo crys-T gwyn!

Gan mai hwn oedd fy 'hash' cyntaf roedd yn rhaid i mi yfed llond cwpan o ddiod seimlyd llithrig. Bu bron i mi fod yn sâl ond fe lwyddais i wenu drwy'r cyfan, ac felly dwi rŵan yn aelod anrhydeddus o'r 'criw'!

Mae hi'n ddiwrnod blwyddyn newydd Tsieniaidd ar Chwefror 4, felly mae pawb yn brysur yn addurno'r lle efo addurniadau coch ac aur. Cewch hanes y digwyddiad lliwgar yma fis nesaf. Hwyl.



Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

CARTREF
HENOED

Joelas

Caernarfon
(0286) 4652

BRYN
(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG
Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd Adran Bentrif: Nos Fawrth, 4 Chwefror, daeth Miss Phyllis Ellis i sgwrsio am yteledu gyda'r aelodau. Fore Sadwrn, 8 Chwefror, aflwyddiannus fu'r tîm pêl-droed yn erbyn Adran Llangybi, ond roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Diolchir i'r cyfeillion, Dylan, Rhian, Rhys ac Anti Liz am edrych ar ôl yr hogial 11 Chwefror mwynhaodd pawb gêm o Bingo. Bu rhai yn ddigon ffodus i ennill! Cafodd pawb wobwr ar y diwedd. Diolchir i'r galwyr medrus Sioned a Nia, bydd yn rhaid i Anti Helen wyllo rhag iddi golli ei swydd fel galwraig ym Mingo'r Carnifal! Diolchir iddi am roi benthyg yr offer ar gyfer y gêm. Dyma weddill y gweithgareddau — Chwefror 18: Mr Len Porter; Chwefror 25: Dawnsio Gwerin gyda Mrs Judith Harding; Mawrth 3: Gwneud Crempog hefo Anti Janice; Mawrth 10: Noson yng ngofal Mrs Ann Thomas; Mawrth 18 (Mercher): Trip i'r Ganolfan Hamdden; Mawrth 24: Gwaith Llaw gyda Mrs Bronwen Jones, Rhiwlas; Mawrth 31: Mr Richard Jones, Bethel; Ebrill 7: Parti a Disgo. Dymunir pob llwyddiant i'r parti dawnsio disgo fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Gylch, ddydd Sadwrn, Chwefror 29, a'r ungiolion fydd yn cystadlu ddydd Sadwrn, Mawrth 7.

Ysgol Sul Bosra: Y mae'r plant yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer dwy gymanfa eto eleni. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr yng nghapel Jerusalem, Nant Peris. Trefnir bws i gludo'r plant. Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid yng Nghaernarfon. Gobeithir trefnu gemau pêl-droed a phêl-rwyd i'r plant wedi'r holl waith caled.

Pwyllgor Neuadd: Gyda balchther y mae pawb yn edrych ar yr Ysgol Gymunedol newydd, gan ddotio at ei phensaernïaeth a'i safle odidog yn wynebu'r Wyddfa a'i chriw. Y mae aelodau'r pwyllgor neuadd yn brysur werthu tocynnau Raffl Wanwyn, 10c y tocyn neu £1 am lyfr. Bydd yr elw yn mynd tuag at brynu offer i'r Neuadd Gymunedol a'r ystafell bwyllgor. Tynnwyd Clwb Cant mis Ionawr mewn pwyllgor a'r enillwyr oedd: 1, Philip Jones; 2, Manon Glyn; 3, Eileen Thomas. Tynnir Clwb Cant Chwefror a Mawrth yn Sycharth.

Tynnir y Raffl Wanwyn, nos lau, Ebrill 9, yn Neuadd Eglwys Santes Helen. Gobeithir trefnu gweithgareddau'r Pasg. Bydd

manyllion pellach yn y rhifyn nesaf.

Gwellhad: Y mae'r aflwydd y fflw yn drwch o gwmpas y pentref, mawr obeithir fod pawb yn gwella. Anfonwn ein cofion annwyl at Mrs Betty Evans, Llys y Gwynt, sydd wedi bod am ychydig ddyddiau yn y Foelas.

Profedigaeth: Ar Chwefror 16, yn dawel yng Nghartref Sant Tysilio, bu farw Mrs Maggie Thomas, 1 Tai Hyfryd, a hithau yn 88 mlwydd oed. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Beti a Ron Hughes a'r teulu oll yn eu colled lem.

Eglwys Santes Helen: Fore Sul, Ionawr 26, am 10.30 a.m., gyda'r Parch Tegid Roberts yn gweinyddu, bedyddiwyd Llŷr Alwyn, mab Jennifer ac Alwyn Lloyd Hughes, Aljen.

Ysgol Tan y Coed: Dydd Gwener, Chwefror 14, oedd diwrnod olaf Anti Mary wrth ei gwaith yng nghegin yr ysgol ar ôl gwasanaeth di-dor o 23 o flynyddoedd. Fel arwydd bach o'n gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth fe drefnwyd tysteb, ac yn wir fe gasglwyd cyfanswm o £140.00. Gan nad yw'n bosib diolch i bawb a gyfranodd yn unigol, manteisiwn ar y cyfle i ddiolch yn awr.

Yn ystod y prynhawn trefnodd y Cyfeillion barti i Anti Mary a'r plant. Ar ôl gwledd flasus iawn, fe gyflwynwyd Anti Mary gyda nifer o gardiau, anrhegion a blodau. Yna, rhannodd Anti Mary anrhegion i bob un plentyn a phawb ymhlith y staff. Er mai achlysur trist oedd ymddeoliad Anti Mary i ni yma yn yr ysgol, fe wnaeth pawb y gorau i fwynhau ei hun yn y parti. Fe ffilmiwyd y cyfan ar fideo, ac ar y

diwedd cyflwynwyd Anti Mary gyda chlamp o lyfr o'r enw *Out to the Court*. Casgliad o waith gan bob un o blant yr ysgol oedd hwn, mewn gair a llun, yn cofnodi'r hyn oedd yn dod i'w meddyliau wrth feddwl am Anti Mary. Am gyfoeth a gafwyd! Dywediad fel, *Out to the Court*, plastars glas i wella pob dolur, a da-da yn ddistaw bach heb i Mr Wmffras wybod! I gloi, dywedodd Miss Phyllis Ellis air ar ran y Llywodraethwyr, y rhieni a'r Cyfeillion.

Nid hawdd yw crynhoi gwasanaeth o 23 mlynedd i golofn fel hyn, ac ofer fyddai mentro, felly yn syml iawn, diolch ar ran pawb i Anti Mary am ei gwasanaeth ffyddlon, ei gofal dros y plant, a'i chefnogaeth i holl weithgareddau'r ysgol. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i chi Anti Mary, a chofiwch ddod i edrych amdanom.

Diolch hefyd i'r Cyfeillion a wnaeth yr holl drefniadau ar gyfer y parti.

Gydag ymddeoliad Anti Mary daeth newidiadau yn y gegin wrth gwrs. Penodwyd Mrs Elizabeth Jones i gyn-swydd Anti Mary, a phenodwyd Mrs Gwenda Jones fel Uwch Oruchwylwraig canol dydd. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich swyddi newydd.

Yn ystod gwyliau'r hanner tymor, treuliodd Mrs Shirley Roberts gyfnod byr yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan iddi, ac edrychwn ymlaen i'w gweld o flaen ei dosbarth yn fuan iawn.

Diolch: Dymuna Gareth a Carys Eddy, Y Groeslon, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd eu mhab Dylan Wyn ar ôl triniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl.

Carai Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, ddiolch i staff a phlant Ysgol Tan y Coed ac i bawb a fu mor garedig wrthi ar achlysur ei hymddeoliad o'r Ysgol.



Anti Mary ar achlysur ei hymddeoliad.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Llongyfarchiadau i Jason Hughes, Cefn Gwern, ar ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Da clywed fod Bryn Griffiths, Delfryn, yn gwella ar ôl cael llawdriniaeth.

Dymuniadau gorau i bawb sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Mae llawer o waeledd yn y pentref ar hyn o bryd a gobeithiwn adferiad iechyd buan i bawb.

Sioe'r Pentref: Ar ôl cyfarfod yn y Ffestri yn ddiweddar penderfynwyd cynnal sioe gynnyrch gardd a thŷ 1992 ar ddydd Sadwrn, 22 Awst. Bydd y rhestr testunau i'w gweld ar hysbysfwrdd y pentref cyn y Pasg er mwyn i'r pentrefwyr ddechrau paratoi. Dosberthir rhaglenni i bob tŷ yn agosach i'r dyddiad.

Pwyllgor cae chwarae: Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a oedd yn gyfrifol am lwyddiant (ac eithrio ffactorau'r tywydd) digwyddiadau'r Nadolig — y daith i'r pantomeim, y goeden wedi'i goleuo a rhoddion yr henoed. Er mwyn codi arian bydd y pwyllgor yn cynnal arwerthiant cist car ar ddydd Sadwrn, 18 Ebrill. Hefyd eleni gobeithir cynnal helf wyaug Pasg, gemau giamocs a ffair haf.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y pregethwyr canlynol yn ystod mis Mawrth — 1: Parch Gwilym Hughes; 8: Glyn Owen; 15: Gweinidog; 22: Gweinidog; 29: Parch M. L. Thomas — i gyd am 2 y pnawn. Croeso i bawb ymuno â'r hwyl.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Gwellhad buan i Mrs Carys Evans, Carwyn; Miss Janice Williams, Cartref gynt; Mrs Ceridwen Owen, Gwynant; ac hefyd i Mrs J. Humphreys, Lasynys; i gyd wedi bod yn wael yn ddiweddar. Gobeithio eu bod yn gwella.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â Mrs Gwenda Gardner, Becws Bryngwyn ac â Mr Arfon Lewis, Bryn Ffridd, ar golli eu brawd yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Cyril Roberts, 1 Tai Minffordd, ar enedigaeth eu ŵyr cyntaf, mab bychan i Gwenda a Huw sydd wedi ymgartrefu yn Sir Fôn.

Diolch: Dymuna Mrs Casie Williams, Morawel, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra'r oedd yn yr ysbyty yn ddiweddar.

PLAID CYMRU LLANRUG

SGWRS A LLUN
gan
Mary Vaughan Jones

yn y Sefydliad Coffa
Nos Fercher, Mawrth
18 7.30 o'r gloch

CROESO I AELODAU
A FFRINDIAU

Geni • Bedyddio • Iŵed • Priodas

Diolchion • Erddio • Ffrindiau • Dydd Gŵyl

✱ Achlusur arbennig? ✱
✱ Pinnheg unigryw? ✱
Beth am un o sampleri

**PWYTHAU
CAIN**

✱ Cynllunir pob sampler
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

✱ Hefyd gwniadwaith o bob math
gwneud dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

✱ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau o Farddoniaeth

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

CHWILOTA ELUSENNAU PLWYFOL



Mae amryw o fân elusennau yn bod o fewn y fro, gyda symiau bychain o arian yn cael eu rhannu'n flynyddol un ai i unigolion neu i fudiadau gwirfoddol. Pwyllgorau o Ymddiriedolwyr neu Gynghorau lleol sy'n gweithredu'r elusennau hyn yn aml. Mae un elusen yn bodoli sydd bron yn dri chant oed, ac yn un werthfawr iawn — ond dim ond i drigolion Llanrug a Chaernarfon, a dim ond i fechgyn yn unig. Yr elusen honno yw un Dr John Morris, neu Ymddiriedolaeth Dr Morris fel y gelwir hi.

Mewn ewyllys wedi ei dyddio 20 Gorffennaf 1709, rhoddodd John Morris, gŵr bonheddig o Gaernarfon, dai a throedd o'i eiddo ym mhlwyf Llanrug a Nefyn i'w nai os oedd iddo ddisgynydd gwrywaidd. Os nad oedd, yna roedd yr eiddo i'w drosglwyddo i Ymddiriedolaeth dan ofal Esgob Bangor, i dalu yn flynyddol swm o arian tuag at brentisio un neu ddau o fechgyn tlodion plwyf Llanrug a thref Caernarfon.

Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am Dr John Morris. Ymddengys mai un o Abermarchnad, Sir Drefaldwyn, ydoedd yn wreiddiol. Sut tybed y daeth i feddiant tiroedd yn Llanrug a Nefyn?

Roedd y tiroedd yn Llanrug yn cynnwys ffermydd Drws Deugoed, Cae Siencyn, Cae'r Weddus, Cefn Llwyd a Glan Seiont. Yn dilyn Deddf Cau'r Tiroedd Comin, ychwanegwyd mwy o dir at yr eiddo hwn ym mhlwyf Llanrug. Ond tua'r un cyfnod, drwy esgeulustod yr Ymddiriedolwyr, collwyd y tir yn Nefyn, ac ni dderbyniwyd unrhyw arian oddi yno ers 1802. Bellach, does neb yn gwybod enwau'r tiroedd yn y plwyf hwnnw oedd yn eiddo i Dr Morris.

Yn 1869 gwerthwyd rhannau o'r eiddo i Gwmni Rheilffordd Caernarfon a Llanberis, a buddsoddwyd yr arian.

Tua diwedd y ganrif ddiwethaf bu dadlau ynglŷn â gweinyddiad yr Elusen. Dadleuai rhai fod ffafriaeth yn cael ei roi tuag at fechgyn rhai oedd yn aelodau Eglwysig, er mai'r Ymneilltuwyr oedd yn y mwyafrif yn Llanrug a Chaernarfon. Dadleuai eraill nad oedd unrhyw gwestiwn yn cael ei ofyn i'r ymgeiswyr ynglŷn â'i

daliadau crefyddol.

Yn 1894 drwy orchymyn o eiddo Bwrdd Dirprwywyr yr Elusennau, cyfarwyddwyd yr Ymddiriedolwyr i drosglwyddo £300 i gyfrif Ymddiriedolwyr Swyddogol Cronfeydd Elusennol. Drwy orchymynion pellach yn 1897, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1894, awdurdodwyd pwyllgor unedig o Gyngor Plwyf Llanrug a Chyngor Bwrdeistref Caernarfon i apwyntio un neu ragor o aelodau ychwanegol ar fwrdd llywodraethol yr Elusen — ond heb fod dros bedwar mewn nifer. Erbyn heddiw, nid yw'n ymddangos fod hyn yn digwydd, ond mae'r Elusen yn parhau, ac y mae bechgyn o dref Caernarfon a phlwyf Llanrug sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach yn derbyn nawdd.

DATHLIADAU

Eleni yw dau canmlwyddiant dyfodiad y Parch Peter Bailey Williams i'r ardal fel Rheithor plwyf Llanrug a Llanberis.

Eleni yw canmlwyddiant agor sip gydweithredol yn Llanrug — ac y mae'r Co-op yn parhau i fasnachu fel siop annibynnol yn eiddo i'r pentrefwyr. Bydd mwy o hanes y Co-op yn y rhifynnau i ddod.

HANES TEULUOL

Gwybodaeth, os gwelwch yn dda, am ŵr o'r enw John Owen Williams a oedd yn byw yn Dinorwic Terrace, Clwt-y-bont ar ddechrau'r ganrif hon. Credir fod cysylltiad ganddo â Garndolbenmaen.

COFNODION PLWYF LLANDDEINIOLEN

Yn ddiweddar cefais fenthgy copïau o gofnodion yn ymwneud â Treth y Tlodion ym mhlwyf Llanddeiniolen.

Mae cryn waith astudio arnynt, ond bydd mwy o wybodaeth ar gael yn rhifynnau nesaf yr *Eco*.

Anfonwch eich sylwadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 3515).



CIPolwg ar y 100 CANMLWYDDIANT CYMRU'R PLANT

Pan mae rhywun yn meddwl fel arfer am ben-blwydd yn gant oed daw darlun o berson hen a musgrell i'r dychymyg. Ond mae CIP (olynydd *Cymru'r Plant*), *Bore Da* a *Mynd* (cylchgrawn i ddysgwyr oedran cynradd ac uwchradd) mor ifan ag erioed er bod CAN mlynedd ers i Syr O. M. Edwards gyhoeddi'r rhifyn cyntaf o *Cymru'r Plant* yn 1892.

Mae'r cylchgronau wedi newid llawer ers y dyddiau hynny, â'i delwedd yn newid yn gyson er mwyn annog plant a phobl ifanc heddiw, sydd wedi eu magu ym myd y teledu, i ddarllen.

Tydi amser yn hedfan pan mae rhywun yn mwynhau? Ac rydych yn siwr o fwynhau ych hunain *Gant y Cant* gyda cylchgronau'r Urdd oherwydd dyna enw'r llyfr posau sydd wedi ei gyhoeddi gan yr Urdd fel rhan o ddatliadau'r canmlwyddiant. Mae'r llyfr yn siwr o achosi cur pen ac ambell bwl o chwerthin hefyd!

Mae'r canmlwyddiant yn garreg filltir bwysig yn y byd cyhoeddi yng Nghymru ac er mwyn i blant Cymru gael ymuno yn y dathlu mae criw Theatr yr Arad Goch wedi cael eu comisyntu i berfformio sioe arbennig.

Bydd y sioe yn teithio o amgylch Cymru ym mis Mai a mis Mehefin 1992 er mwyn galluogi dros 12,000 o blant ysgolion cynradd i'w gweld. Mae'n ymweld â Theatr Gwynedd, Bangor, ar Fehefin 9, 10, 11 a 12, gyda pherfformiadau bob dydd am 10.00 y bore a 1.30 y pŵn.

Ond betham ymgymryd â'r her y mae canmlwyddiant newydd yn ei chynnig ac archebu CIP, *Bore Da* a *Mynd* o Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth.

DRAENOG

Mae'n talu i hysbysebu yn Gymraeg yn yr 'Eco' — ond nid yn adeiladau cyhoeddus ein bro mae'n amlwg. Gwahoddiad swyddogol uniaith Saesneg sydd i agoriad cartref nyrsio lleol, a hwnnw'n cael ei agor hefyd gan 'Plaid Cymru councillor'.

Canu Corawl

Mae ardal yr Eco wedi bod yn ddisglair iawn ynglŷn â chanu corawl ar hyd y blynyddoedd ac mae hanes clodwiw i gorau'r cylch.

Fe erys y traddodiad canu corawl yn bur iach heddiw. Meddylier am y nifer helaeth o gorau a phartïon sy'n ffynnu yn yr ardal gan roi pleser mawr i'r cantorion a gwasanaeth amhrisiadwy i'r gymdeithas.

Corau meibion a chorau merched yw'r mwyafrif o'r corau bellach a phriniau mae'r corau cymysg (nid cymysglyd sylwer!) er fod corau cymysg da iawn wedi bod yn yr ardal am flynyddoedd lawer.

Mae yna gôr cymysg yn yr ardal — Cantorion Elidir — sy'n ymarfer, o dan arweiniad Robin Jones, yn Ysgol Gynradd Bethel bob nos lau. Fe sefydlwyd y Cantorion rhyw ddwy flynedd yn ôl bellach ac maent wedi canu mewn cymdeithasau llenyddol; rhaglen 'Bwrw Sul' ar S4C; darllediad o 'Caniadaeth y Cysegr' o gapel Saron, Bethel; ac mewn amryw o wasanaethau crefyddol lleol.

Tua 25 o aelodau sydd yng Nghantorian Elidir ac yn wahanol iawn i'r arfer mae adran y meibion yn weddol niferus a sefydlog ond y mae yna brinder yn adran y merched yn enwedig y prif lais — soprano.

Felly, os oes yna gantorion â diddordeb i ymuno — yn enwedig sopranos — dewch draw i Ysgol Gynradd Bethel ar nos lau am 7.30 (Capel Saron, Bethel, yn ystod gwyliau ysgol) a chewch groeso, hwyl a chân, a hwyl yn y canu!

Os am fwy o fanylion rhwch ganiad ffôn un ai (0248) 670140 neu 670150.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

+

**J.M.
JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR,
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:

Caernarfon 2898
(dydd)

Caernarfon 76285
(nos)

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Cymdeithas Lenyddol Undebol: Cafwyd noson hynod ddiddorol yn y cyfarfod diwethaf o dan ofal Bet a Seiriol Owen. Trwy gyfrwng sleidiau aed a ni ar daith i Canada i weld rhai o ryfeddodau y wlad honno yn adeiladau, blodau ac anifeiliaid. Roedd y sylwebaeth gwyno ynghyd â'r lluniau gwych yn addysg i bawb fu mor ffodus a bod yno.

Yn ystod y mis derbyniodd aelodau'r Gymdeithas wahoddiad i fynd i gyfarfod aelodau Cymdeithas Lenyddol Bethania, Y Felinheli, a chafwyd noson hwyliog iawn o dan ofal Bleddyn Jones, y Groeslon. Yn dilyn cafodd pawb gyfle i gymdeithasu uwchben paned yn awyrgylch glyd a diddos Capel Bethania ar ei newydd wedd.

Urdd: Agorwyd y tymor gyda noson o Ddawnsio Gwerin yng nghwmni Judith Harding, Penisarwaun. Dathlwyd Santes Dwynwen gyda Mair Read ac Eirlys Williams a chafwyd nosweithiau hefyd gyda Richard Lloyd Jones a Meinir Williams, Swyddog Datblygu Eryri. Yn ogystal â'r gweithgareddau wythnosol mae aelodau o'r gangen yn brysur paratoi tuag at Eisteddfod Cylch yr Urdd sydd i'w chynnal yn Ysgol Brynrefail ar Fawrth 7.

Bydd cyfle i glywed cyfraniad plant Bethel mewn Noson Goffi yn neuadd yr Ysgol Gynradd ar nos Wener, Mawrth 6, am 6.30 o'r gloch, ond eleni bydd nifer y gwrandawyr yn cael eu cyfyngu i rai â thocynnau yn unig oherwydd maint y neuadd.

Diolchiadau: Dymuna Rhian a Gareth Hughes, Erddig, a'r plant, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad gan gymdogion a chyfeillion yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.

Cydymdeimlo: Bu mis Chwefror yn fis caled iawn yn yr ardal gyda nifer o deuluoedd yn dod wyneb yn wyneb â phrofedigaeth. Estynnir pob cydymdeimlad â'r holl deuluoedd yn eu profedigaeth.

Ar Chwefror 2, yn 89 oed, bu farw Mrs Mary L. Thomas, Bro Hedd, Seion, mae ein cydymdeimlad dwys â Mr a Mrs Alwyn Williams a'r teulu yn eu profedigaeth.

Ar Chwefror 3, bu farw Mr Elfed Roberts, 7 Rhes Cae Rhos, Seion. Estynnir pob cydymdeimlad â Mrs Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth.

Ar Chwefror 1, yn 85 oed, bu farw Mr Gwilym Williams, 25 Bro Rhos gynt. Cydymdeimlwn â theulu Mr Williams hefyd yn eu profedigaeth.

Mae nifer o deuluoedd eraill hefyd wedi colli anwyliad a pherthnasau nad oeddynt yn byw yn y pentref ac mae ein cydymdeimlad hefyd â'r teuluoedd hynny yn eu profedigaeth.

Rhes uchaf (o'r chwith): Charles Evans, Ellis Owen, Margaret Jones, David Llywelyn, Mary Thomas, Alun Evans, Ralf Williams, May Jones, Rhiannon Evans, a Willie.

Rhes ganol: Annie Myfanwy Pritchard, Llanberis; (?); Sis Hughes; Nesta Jones; Agnes Williams, Llanberis; Gladys Williams; May Jones; Elinor May Williams.

Rhes flaen: Trevor Ellis, Alun Jones, Ernest Williams, Llew Humphreys, Alwyn Williams, Owen Rees Parry, Cyril Williams, Ceris Wyn, William Huw, Eifion Jones.



Yn 18 oed: Llongyfarchiadau i Lynn Roberts, Tan y Buarth, fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Fawrth 13, a hefyd i Annette Jones, Llwyn Celyn, fydd hefyd yn dathlu ei phen-blwydd yn ystod y mis.

Clwb y Rhos: Nos Lun, Chwefror 10, ymwelodd aelodau Clwb y Rhos â deorfa Cymdeithas Pysgota Seiont, Gwyrfa i Llyfni, yn Crawia. Cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni Huw Hughes a Gwynfor Jones sydd yn weithgar iawn yn y Gymdeithas a rhyfeddwyd at yr holl waith sydd wedi ei wneud yn y deorfa.

Merched y Wawr: Yng nghyfarfod mis Chwefror cafwyd noson fywiog o ymarfer corff dan arweiniad Mrs M. Green, Llanrug. Diolchwd iddi gan Mrs Eirlys Williams. Mae Mrs Glenys Griffiths yn hyfforddi côr y gangen fydd yn cystadlu yn eisteddfod dathlu 25 mlynedd sefydlu'r mudiad yn ystod mis Ebrill eleni.

Disgyblion Ysgol Bethel yn 1932: Cafwyd y llun yma gan Mrs Bessie Ellis i'w gyhoeddi yn yr Eco. Mae'n siwr y daw a nifer o atgofion melys iawn i nifer o'n darllenwyr.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn astudio gwahanol agweddau o hanes y pentref ac fe fyddai'r athrawon yn ddiolchgar iawn am gael benthgyluniau neu greiriau sydd a chysylltiadau â'r pentref.

Llongyfarchiadau i Edith ac Eric Christie, 16 Y Ddôl, ar enedigaeth merch fach, Ella, ddechrau'r mis.

Clwb 200 Ionawr: Yr enillwyr oedd — £20: Mr Wyn Evans, Parciau Rhos; £10: Mr Wyn Morris, Fachell; £5: Mrs Mair Jones, Glan Gors; Mrs Carys Jones, Bwlch y Gwynt; Mr Goronwy Owen, 18 Cremllyn; Mrs Grace Williams, 36 Bro Rhos; Mr Siôn Williams, 15 Y Ddôl; Mr Alwynne Jones, 10 Y Ddôl; Miss Glenys Wyn Jones, 14 Tan y Cae; a Miss Caron Lowri Jones, Glan Gors.

Rhagolygon Addawol

Cynhaliwyd dau gyfarfod hynod o addawol gan Antur Padarn yn ddiweddar. Ar nos Iau, 23 Ionawr, croesawyd cynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd lleol, Menter Fachwen a Pwyllgor Tywysog Cymru i gyfarfod â Dr Graham Groom o gwmni Euro-DPC. Mae'r cwmni yn awyddus i hyrwyddo cysylltiadau lleol ac fe gytunodd Antur Padarn i drefnu'r cyfarfod yma ar eu rhan. Fel canlyniad mae cyfarfod pellach, y tro yma ar safle Glyn Rhonwy, wedi ei drefnu ar gyfer pnawn dydd Mercher, 26 Chwefror, am 1 o'r gloch. Y gobaith yw y daw cynlluniau pendant i rym ar ôl y cyfarfod hwn.


Yna ar nos Iau, 6 Chwefror, daeth Mr John Humphreys, Rheolwr Datblygu Cefn Gwlad ar ran Awdurdod Datblygu Cymru i gyfarfod â'r aelodau. Profodd yn cyfarfod buddiol, ac awgrymwyd i'r Antur gysylltu â Chyngor Dosbarth Arfon er mwyn gwneud cais o dan Gronfa Cymru Wledig ar gyfer rhanu swydd Swyddog Datblygu. Hefyd addawyd y byddai'r Awdurdod yn ystyried rhannu swydd swyddog o'r fath yn rhan-amser. Felly, gobeithir gweld ffrwyth i'r trafodaethau hyn yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod datblygu hefyd yn barod i ystyried ceisiadau a ddaw drwy Antur Padarn gan gymdeithasau lleol am grantiau ariannol o dan gynllun Cymorth Gwledig. Felly, chwi gymdeithasau lleol os ydych yn dymuno derbyn cymorth ariannol tuag at waith adnewyddu adeilad neu wella eich adnoddau yna anfonwch eich ceisiadau ysgrifenedig i gadeirydd yr Antur, sef Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig. Gobaith yr Antur wedyn yw cyflwyno y cynlluniau i Awdurdod Datblygu Cymru.

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur ar nos Iau, 5 Mawrth, am 7 o'r gloch yn Angorfa, Styd y Ffynnon, Llanberis.

Beth am ddysgu
dreifio gydag
**YSGOL YRRU
BETHEL**
Cysylltwch â
Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG
671009

**GERDDI
GLASCOED**
(Ger Capel Glascoed)
PENISARWAUN
Mae'r gwanwyn
yn dod!
Cyn plannu
galwch heibio
neu ffoniwch
8870453

**BETHEL
SCAFFOLDING**
BRYN Y CHWILOG, BETHEL
Ffôn: Portdinorwig (93) 670325
★ Sgaffaldiau ar gyfer jobsus
★ Prisiau cystadleuol
★ Ffoniwch i gael estimate yn
rhad ac am ddim




ECO'R IFANC


gan Ddosbarth 6
Ysgol Brynrefail

Gorffennwch
y Llun

LLIWIWCH




Rhannau o ba wledydd yn Ewrop yw'r canlynol? Enwch brif-ddinas pob gwlad.




Gwlad:.....

Prif-ddinas:.....




Gwlad:.....

Prif-ddinas:.....



Gwlad:.....

Prif-ddinas:.....



Gwlad:.....

Prif-ddinas:.....

MORTHWYLIO

gan Y Gwalch

Roedd yr hen fachgan yn eistedd ar y fainc ar ymyl y Maes ganol y bora. 'Rydach chi i lawr yn gynnar,' meddai fi.

'Argyfwng wyt ti'n gweld.'

'O, be' sy'?'

'Mae gwadna fy nghlochia i bron wedi mynd i'r byw, a fedri di ddim cael pedola heddiw wyt ti'n gweld.'

Be' wnewch chi felly?'

'Edrach ar rhain,' a thynnodd bâr o wadna rybar o'i fashiad. 'Beth fydda i'n neud fydd dyrnu sparblis i rhain ar y pren. Mae'n nhw'n para yn reit dda hefyd, mi fasat yn synnu.'

'Pwy fasa'n meddwl.'

'Mae'n rhaid i ti wyt ti'n gweld newid dy syniada hefo'r byd. Cymar di'r Maes 'ma i ddechra. Wyt ti'n cofio'r ffowntan?'

'Honno sydd ymhen Stryd Llyn?'

'A dim diferyn o ddŵr yn dŵad ohonni. Mi fasan wedi dangos gwell parch tasa nhw wedi ei dymchwal hi tros y Cei am byth o'r golwg. Wyddost ti be', mi rydw i'n cofio gweld rhyw hen wraig yn ista ar ei hymyl hi a'i phen ôl hi yn y dŵr.'

'Beth oedd hi'n da yn y fan honno?' meddai fi cyn sylwi fy mod i wedi rhoi fy hun ar lwybr mabinogi arall.

'Mi ddeuda i wrthat ti taswn i'n cael hannar cyfla. Roeddwn i'n digwydd bod ar y Maes 'ma yn torri fy nghyt. Roeddwn i'n dipyn o chap yr adag honno wyddost ti; het lwyd a chantal cul a chrafat piws a phin aur yno fo, a gwasgod felan a giard ar ei thraws hi, ac mi roedd gen i fotwm gŵr ifanc yn fy nghôt, a spats a sgidia yn sgleinio mi fasat yn medru shefio ynddyn nhw, a chansan felan a modrwy arian arni hi, a'r adag honno y gwelais i'r hen wraig 'ma yn ista ar gantal y ffowntan, a dyma fi'n gweiddi arni hi. Beth ydach chi'n neud yn y fan yna rhen fodryb, meddai fi.'

Ddeudodd hi'r un gair ond sbio yn gegrwth ar draws y Maes ac erbyn gweld beth oedd yno ond pry cop; nid un Cymraeg wyddost ti, ond un mawr pinc fel plât pwddin a mwstas Mecsicana ganddo fo. Ac mi roedd yr holl ferched oedd yn y golwg wedi mynd i sgrechian a chodi ei sgertia. Peidiwch â mynd i gynhyrfu meddai fi wrthyn nhw fel'na, mi setlia i o, a dyma fi amdano fo, y pry' cop 'ma. Roedd 'na rhywbath yn orchestol yna i yr adag honno.'

'O lle yr oedd o wedi dŵad?'

'Erbyn deall, wedi dengid oedd o o siop gabais Wiliam Ara Deg. Roedd o wedi dŵad trosodd o Jamaica mewn bocs bananas wyt ti'n gweld. Mi fydda'n ddigon hawdd gynyn nhw ddŵad yr adag honno. Mi roedd hogia'r dre yn deud fod 'na un ohonyn nhw wedi medru mynd ei ôl un waith, ac wedi deud wrth y lleill lle mor braf oedd yma ar y dŵl, ac wyddost ti tydy anghenion pry' cop ddim mor fawr a hynny, am y caiff o dipyn o wybad i de bob yn ail ddydd. Beth bynnag, dyma fi amdano fo i roi fy sawdl arno go gaswn i, ond y fi fuo dest a'i chael hi. Mae rheina yn wenwyn pur ysti tasa nhw yn dy bigo di. Ac ar hynny, beth ddaeth rownd y ffowntan ar sgri ond moto Pwllheli a'i lond o o rhyw hen siortia wedi dŵad i nôl negas, ac mi roeddwn i'n gweld y boi cyn cwfio hefo'r olwyn a'i dafod yng nghil ei geg yn trio cael ei drwyn o rownd, a ches i ddim ond rhoi sponc o'i lwybr o. Beth bynnag dyma ei olwyn flaen o yn mynd tros y pry' cop a'i neu o'n bowltris — roeddwn i'n clywad ei lwod o yn clecian. A'r dwaetha welais i ohono fo oedd yn mynd ar diar moto Pwllheli i fyni Stryd Llyn fel ŵy wedi'i ffrio.'

'Beth wnaethoch chi wedyn?'

Dyma fi'n gweiddi ar yr hen wraig honno, 'Dowch i lawr yr hen fodryb, mae o wedi mynd, neith o ddim byd i chi byth eto.'

'Fasa fawr i ti fy helpu fi,' meddai hi fel'na.

'Beth sy' wedi dŵad i chi?' meddai fi.

'Mae gen i benaglinia drwg', meddai hi fel'na.

Dyma fi'n gafael ynddi hi fel bwndal o wair: roeddwn i'n reit debol yr adag honno, a tasa hi rhyw hannar can mlynadd yn fengach mae'n siwr na faswn i wedi ei gollwng hi mor hawdd. Ond wedi i mi ei chael hi ar ei thraed, roedd hi'n wablian ar ei gwaetha.

'Sgynnoch chi ddim ffon?' meddai fi fel'na.

Oes dwy,' meddai hi.

'Lle mae nhw?' meddai fi.

'Mae nhw yn y ffowntan 'na,' meddai hi. A dyna lle roeddwn nhw yn nofio, ac ar ôl i mi eu rhoi nhw yn ei dwylo hi, dyma fi'n gofyn iddi wedyn, 'Lle rydach chi'n byw?'

'Yn pendraw Pendis,' meddai hi.

'Mi rydw i'n digwydd mynd i lawr y ffordd honno,' meddai fi. 'Mi ddo i hefo chi.' Ac mi es a dyna lle roedd hi'r hen garpan yn straglio dŵad 'run fath â rhyw chwiadan wedi cael pynjar, a'r adag honno y cefais i hanas ei phenaglinia hi.

Mi faswn i'n meddwl ei bod hi wedi taro ati i olchi rhyw ddiwrnod ei gweld hi'n chwipio sychu, ac mi striliodd ei phais. Wedyn yr oedd hi'n ei rhoi hi drwy'r mangl; y petha hefo'r olwynion mawr rheiny wyddost ti, 'run fath â'r pwmp hwnnw fydda gynyn nhw yn chwythu aer i deifars hen ffasiwn o dan y dŵr. Ac yr oedd hi'n deud ddyliwn i wrth y doctor wedyn, ei bod hi'n methu â deall pam yr oedd hi yn mynd nes i'r mangl bob tro yr oedd hi'n troi. Ond erbyn gweld, beth oedd yr hen garpan wedi neud — wedi ffwndro fel bydd rhywun yr oed yna — ond rhoi y bais oedd gynt amdani yn y mangl, a fedra hi yn ei byw stopio troi. A dyma ei phenaglinia hi i'r rowlars a rhoi clec fel tasa ti'n torri cnau, ac yno y buo hi'n sownd nes y daeth 'na rhywun i'w weindio hi odd no.

Wrth gwrsoeddan nhw ddim yn gneud penaglinia plastig yr adag honno wyt ti'n gweld, ond roedd 'na rhyw hen ôf yn swabia Tregarth yn rhoi ei hun yn dipyn o feddyg esgryn rhwng pedoli ceffyla, ac mi berswadiodd rhywun hi i fynd at hwnnw. Beth bynnag, mi roddodd ias o dwmiad i'w phenglinia hi hefo'r fegin fawr a'i rhoi hi ar yr engan a'i ail siapiao nhw hefo morthwyl glo. Ond cofia, dŵad â fynnot ti — roedd o ymhell o flaen ei oes.'

'Sut felly?'

'Mi fydda yn berwi ei forthwyl cyn dechra colbio eu penaglinia nhw.'

'I be' felly?'

'Steruleisio wyt ti'n gweld — rhag iddyn nhw gael jyrms.'

'O, wela i.' Ac ar hynny dyma fi'n clywad rhywun yn gweiddi, 'Ydach chi am ddŵad oddwrth y dyn 'na Hiwi. Ma'r Moto Glas i mewn.'

A phwy oedd yno ar fin y palmant ond yr hen wraig.

'Mi fydd yn well i mi fynd wyddost ti,' meddai fo a chodi. 'Synnwn i ddim na osoda i'r gwadna 'ma pnawn 'ma.'

'Eitha peth,' meddai fi, a gwaeddi ar ei ôl o, 'Cofiwch roi ias o ferw ar ych morthwyl rhag ofn i chi gael jyrms i'ch traed.'

'Mi rwy'ti'n iawn yn y fan'na,' meddai fo, 'lwcus i ti gofio.'

'Yntê hefyd!'

'Wel, so long.' A ffwrdd â fo fel clagwydd wedi osgoi'r 'Dolig.

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn ordor i'ch cartref yn ardal Llanrug.

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

Beth am eich parti 'Dolig eleni
partion o 10 i 50
Cinio Twrci 3 cwrs o £8.50 (nos)
neu £7.50 yn y dydd

Croeso cynnes i bawb oddi wrth Danny a Nerys

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Antur Waunfawr SIOP BRYN PISTYLL

am ddewis helaeth o anrhegion at bob achlysur am brisiau rhesymol. Mae Sul y Mamau a'r Pasg ar y gorwel, felly dowch draw i'n gweld. Basgedi Blodau Sych - Olewon Aromatherapi - Clustogau Persawrus - Pot Purri - Basgedi Anrhegion Lliwgar yn cynnwys sebon, shampŵ, ewyn baddon, a.y.b.

COFIWCH fod gwasanaeth llenwi eich basged / potyn eich hunain â blodau sych neu drefniant o'ch dewis liw. Hefyd mae'n bosib archebu trefniant blodau mawr i lenwi lle tân neu gyntedd swyddfeydd / gwestai.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Siop Bryn Pistyll, Antur Waunfawr, Bryn Pistyll, Waunfawr (0286) 85721.

Enillwyr Clwb 300 am fis Ionawr - £40: Mr Emrys Hughes, Treflan Isaf; £25: Mr Evan Davies, Tan y Graig, Ceunant; £10: Mrs S. M. Jones Evans, Pennant.

Diolch:

Dymunwn ddiolch i'r criw a ddaeth i festri capel Croesywaun i blygu rhifyn mis diwethaf o'r Eco. Diolch hefyd i swyddogion capel Croesywaun am eu caredigrwydd yn rhoi benthyg yr adeilad inni.

Dymuna Rhys Siôn, Pant Teg, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei benblwydd yn 18 oed.

Ar y radio: Bu Rhodri Siôn, Pant Teg, yn cydgyflwyno Proms Ieuenctid Cymru yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, ar 10 Chwefor. Fe glywir y rhaglen ar y radio yn y dyfodol agos. Llongyfarchiadau i ti Rhodri. Dathlu pen-blwydd: Llongyfarchiadau i David Coles, Stâd Bro Waun ar gyrraedd ei ddeunaw oed.

Cymerwyd Siân Rowlands, Ty'n Coed, i'r ysbyty yn sydyn un bore, ond diolch fe wellodd a chafodd ddod adref mewn pryd i ddathlu ei phen-blwydd yn 21 oed, ac i fwynhau y parti a drefnwyd at yr achlysur. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i'r dyfodol Siân.

Dymuna Siân ddiolch yn fawr iawn i bawb am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed ar Chwefor 7.

Y Gymdeithas Lenyddol: Mewn cyfarfod o'r Gymdeithas, nos Lun, Ionawr 27, cafwyd noson o gyflwyno rhannau o lenyddiaeth a cherddoriaeth oedd wedi rhoi boddhad i rai o'r aelodau. Cymerwyd rhan gan Mrs Hilda Williams, Mrs Catherine Jones, Mr Iolo Huws Roberts, Mr T. Arfon Williams, Mr J. Ifor Hughes a Mrs Margaret Owen. Mrs Owen oedd llywydd y noson a thalwyd y diolchiadau gan Mr Alun Williams. Yn y cyfarfod nos Lun, Chwefor 10, cafwyd sgwrs gan y Parch John Gillibrand ar ei gefndir teuluol yn Sir Gaerhirfryn a llywyddwyd gan Mr Tom A. Thomas a thalwyd y diolchiadau gan Mr O. T. Jones. Disgwylir y Capten Gwyn Pari Huws, Caernarfon, atom ar nos Lun, Chwefor 24, i roi sgwrs am ei brofiadau ar y môr o dan y teitl 'Llywybrau'r Môr'. Llywyddir y noson gan Mr T. Arfon Williams. Daw y tymor i ben nos Lun, Mawrth 2, yn y Ganolfan am 7 o'r gloch (sylwer, nid 7.30 fel arfer) pan y ceir swper ac adloniant gan yr aelodau, yn ogystal a rhai cystadlaethau llenyddol hwyliog. Y tâl am y noson, i'r aelodau yn unig fydd £1 a dylid hysbysu un a'i Stanley Williams neu Rol Williams ar unwaith, o'ch bwriad i ddod gan dalu yr un pryd. Fe fydd trafodaeth yn y cyfarfod olaf hwn ar ddyfodol y Gymdeithas gan fod y ddau sydd wrth y llyw, er y llwyddiant di-amheuol eto eleni, yn dymuno cael seibiant o'r gwaith.

Yr Urdd: Âr tymor yn brysur garlamu 'mlaen, croesawyd Mrs Ann Elfryn yn ôl i'r Urdd, ar Chwefor 5, i gynorthwyo'r plant gyda'r gwaith llaw ar gyfer yr eisteddfod. Y Prifardd Ieuan Wyn o Fethesda fu'n ymweld â hwy ar Chwefor 12, i sôn am hen chwedlau. Cafwyd digon o hwyl ar Chwefor 26 pan drefnwyd gyrfachwilod i'r plant gan Anti Beryl - diolch yn fawr iawn iddi.

Dymuniadau gorau i holl blant y pentref fydd yn cystadlu yn eisteddfodau cylch yr Urdd ddechrau mis Mawrth. Cewch gyfle i gael blas ar eu perfformiadau ar nos Fercher, Mawrth 4, am 6.30 o'r gloch yn y Ganolfan - dewch i fwynhau ac i gefnogi'r plant. Mae croeso i bawb.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a fu'n gyfrifol am hyfforddi'r plant gyda'u holl weithgareddau (gan gynnwys gwaith llaw) ar gyfer yr eisteddfod.

Yr Ysgol Feithrin: Nos Fercher, Chwefor 19, mwynhaodd plant y pentref ddisgo i ddathlu gwyliau'r hanner tymor. Trefnwyd y noson gan bwyllgor y Cylch Meithrin, gyda'r elw yn mynd i'r Ysgol Feithrin. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gynorthwyodd i wneud y noson yn llwyddiant. Diolch i bawb a gyfrannodd ddillad i fabi-doliau'r cylch, a diolch yn arbennig i Eira Wyn, Llwyn Celyn, am wau ddillad ar eu cyfer.

Cynhelir cyfarfod blynyddol Cylch Meithrin Waunfawr yn y Ganolfan, nos Lun, Ebrill 6. Dylai unrhyw fater i'w drafod ddod i law yr ysgrifennydd cyn Mawrth 15.

Cofiwch gysylltu â unrhyw aelod o'r pwyllgor os dymunwch roi enw eich plentyn ar restr aros yr Ysgol Feithrin. Yr ydym yn derbyn enwau yn awr ar gyfer Medi 1992. Rhaid i'r plentyn fod dros 2½ mlwydd oed cyn mynychu'r Ysgol Feithrin. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Llinos Cadwaladr, 3 Stâd Glyn Afon (Waunfawr 591).

Canolfan Chwaraeon: Yn eu cyfarfod diwethaf trefnodd pwyllgor Canolfan Chwaraeon Waunfawr nifer o weithgareddau er mwyn symud ymlaen i gasglu y £3000 sy'n weddill er mwyn adeiladu eu canolfan chwaraeon sy'n werth £50,000.

Ymhlith y digwyddiadau y gobeithir eu trefnu bydd nosweithiau gwerin yn nhafarn y pentref; cyngerdd yn y Ganolfan; disgo i'r ieuenctid; dartiau yn y dafarn; gig yng nghwmni'r Beganifs, cwis a bariciw, a gyrfaedd chwist.

Mae'r pwyllgor yn galw ar i'r pentrefwyr i roi cefnogaeth i'r ymgyrchoedd codi arian.

Profedigaeth: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Gwilym Williams, Fferm Bod Hyfryd, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd yn frawychus o sydyn.

Croeso adref o'r ysbyty: Croesawn Mrs Iorwerth Jones, Dychwelfa, adref o'r ysbyty yng Nghaerdydd. Hefyd Mrs M. B. Davies, Bryn Eithin, a fu yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod. Anfonwn ein cofion at bob un o'r pentref sydd mewn ysbyty ac yn wael yn eu cartrefi.

Llongyfarchiadau i Kailey Jones, Cynefin, a oedd yn aelod o'r tîm nofio genethod dan 15 oed a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth nofio cenedlaethol yr Urdd. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yng Nghwm Rhondda.

Genedigeth: Llongyfarchiadau i Delyth a Gary Jones, Hyfrydle, ar enedigeth merch fach, Siân, chwaer fach i Iwan, ac wyres i Mr a Mrs Gwynedd Williams, Stâd Bro Waun.

Gwasanaeth Ieuenctid: Roedd yn braf gweld cymaint o bobl ifanc yr eglwys yn cymryd rhan yng ngwasanaeth boreol capel Bethel ar fore Sul, Chwefor 9. Diolch i Nan Wyn am drefnu'r gwasanaeth.

Gyngerdd Gŵyl Ddewi

Cynhelir y Cyngerdd eleni ar nos Wener, Mawrth 6 am 7.30. Trefnir y cyngerdd hwn gan staff anacademaidd Coleg Prifysgol Gogledd Cymru.

Yr artistiaid fydd Côr y Penrhyn, Plethyn, plant Ysgol Pendalar ac Ysgol Hafon Lon, a Dafydd Edwards. Sulwyn Thomas fydd yr arweinydd a'r llywydd eleni yw Mr Wyn Thomas, Cerddoriaeth, CPGC.

Noddir y cyngerdd gan Banc y Midland, a rhennir yr elw rhwng Ysgol Pendalar, Ysgol Hafod Lon ac Adran Hanes Cymru.

Pris y tocynnau yw £3 i oedolion a £2 i'r henoed a phlant a gellir eu cael o'r Uned Cysylltiadau Cyhoeddus, GPGC, Ffôn: (0248) 351151, estyniad 2015.

CYMDEITHAS CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Yn ystod mis Mawrth cynheli gweithgareddau fel a ganlyn

Nos Iau, Mawrth 5:

Noson i Ddathlu Gŵyl Ddewi.

Eitemau amrywiol gan ddisgyblion y Ysgol. Cyfle am baned a sgwrs i gyrr am £1.

Nos Iau, Mawrth 26:

Gyrfa Chwist.

Mr W. G. Roberts yn galw. Gwobrau lu. Darperir lluniaeth ysgafn Mynediad £1.

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR

Ffôn:

Waunfawr 552

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Dewis eang o
Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Lleni 'Roler'.
Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 291

Ar Agor
9-7pm
9-7pm Sadwrn
Argau
Sul a Mercher

O SIAMBAR SELWYN

Mi ges i'r fraint ddechrau'r mis 'ma o gael gwahoddiad i fynd i Blas. Na, nid i Balas Buckingham, ond Plas Penucha, Caerwys, cartre yr enwog Thomas Jones Dinbych, awdur, gweinidog a bardd, a sefydlydd gwasg — a brynwyd yn ddiweddarach gan ei argraffydd Thomas Gee.

Mae'n dda fod y Prifardd John Gruffydd Jones a'r Parchedig Isaac Jones wedi gwneud trefniadau i'm cyfarfod yn Abergele, neu mae'n gwestiwn mawr gen i a fyddwn i wedi dod o hyd i'r Plas ar noson mor niwlog ac oer.

Ond er gwaetha'r oerni, roedd 'na g'nesrwydd tân coed, yn ogystal â chynhesrwydd croeso ym Mhlas Penucha.

Cylch Llenyddol ardaloedd Clwyd sy'n cyfarfod yma ar y nos Lun gynta' o bob mis, mewn ystafell foethus, cadeiriau esmwyth, a'r tân coed yn clecian ei groeso.

A sôn am griw diddan. 'Does ryfedd bod graen ar y cylch llenyddol hwn pan geir rhai fel y Parchedig Isaac Jones, Huw Jones, John Alun Roberts, a'r Prifeirdd Gwilym R. Tilsey a John Gruffydd Jones, Einion Evans ac Aled Rhys Wiliam yn aelodau. Deallaf fod y Prifeirdd Mathonwy a Gwilym R. wedi bod yn aelodau ffyddlon o'r cylch llenyddol hefyd am flynyddoedd.

'Roedd John Alun yn cydnabod ei fod o'n bedwar ugain oed, ond bobol annwyl mae o'n dal yr un mor heini, a'i feddwl o'n ifanc ac yn llawn hiwmor o hyd. 'Roeddwn i'n cael oriau difyr yng nghwmni Tilsli a John Alun pan oedd y ddau yn gweinidogaethu yn y cylch yma.

Rwy'n cofio'n dda, pan oeddwn i'n byw yn fy hen gartref — Bryn Alun, ym Methel — tua thri o'r gloch un bore Sul, sŵn cerrig mân yn taro ar ffenest y llofft. Deffro o'm cwsg a chodi yn ofnus i'r ffenest, a chlywed llais Tilsli yn treiddio trwy'r tywyllwch, 'Rhen Sel, mae'n ddrwg gen i, ond rydw i mewn cythgam o drafferth — rydw i wedi mynd allan o betrol ger fferm yr Erw — fedri di . . . ?'

Allan a fi i'r nos ac i'r car. Ar ei ffordd adref o 'steddfod roedd y Prifardd, ac yn gwmni iddo yn y car roedd 'na wraig weddw barchus a oedd yn cael 'liff' adref i Gaernarfon ganddo. Es a'r ddau adre i Gaernarfon a threfnu i Tilsli gadw ei gyhoeddiad am ddeg ym Mhen-y-groes. Wrth gwrs roedd 'na destun cerdd yma, a rhaid oedd ffonio John Alun i ddeud yr hanes. Rwy'n credu i John lunio prydddest i'r amgylchiad ac roedd Tilsli wrth ei fodd yn fy atgoffa o'r digwyddiad ym Mhlas Penucha ddechra'r mis 'ma.

Ia, noson gartrefol hyfryd a'r cwmni'n gyfeillgar. Mae bywyd cymdeithasol ac ymweliadau cymdogion â'n haelwydydd ar drai, gwaetha'r modd, a gwir gymdogion y rhan fwyaf ohonom yn anffodus bellach yw y

'Neighbours' o ben draw'r byd, sy'n ymweld â'n haelwydydd yn nosweithiol.

Mae 'na amryw yn gwybod mwy am drigolion Stryd y Goron nag am drigolion eu stâd neu stryd eu hunain, a does 'na ddim dadl ynglŷn â'r ffaith bod ein bywyd cymdeithasol yn gryn dlotach o'r herwydd.

Mae yna blac ar fur Plas Penucha sy'n datgan mai yno y ganed Thomas Jones yn y flwyddyn 1756. Saeson sy'n byw yno heddiw, ond mae'r Cylch Llenyddol yn cael cynnal eu cyfarfodydd misol yno yn rhad ac am ddim ar aelwyd y Plas.

Bu farw Thomas Jones yn Ninbych ar Fehefin 16, 1820. Rwy'n siwr y byddai o yn hynod falch fod criw sy'n caru'r 'pethe' yn cael croeso mor gynnes yn ei hen gartref yn rheolaidd bob mis.

Ei emyn mwya' adnabyddus o bosib yw, 'Mis wn fod fy Mhrynwr yn fyw'.

CYMDEITHAS CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

CLWB 100

Enillwyr mis Chwefror oedd:

Mrs F. E. Roberts, Llanrug
Mrs Edwina Thomas, Ceunant
Mrs Iona Williams, Llanrug

MAE LLE I RAGOR O AELODAU

Os am ymuno, yna cysylltwch â
Mr Dafydd Ifans
Ysgol Brynrefail



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

NEGES BWYSIG

Mae pedwar mis wedi pasio ers pan ddaeth criw ynghyd i ateb apêl am gymorth i sicrhau parhad *Eco'r Wyddfa*. Ers hynny mae llawer wedi digwydd — tîm golygyddol newydd yn ymffurfio a sawl bwlch ymhlith swyddogion eraill y papur wedi eu llenwi. Mae dyfodol y papur yn sicrach.

Ond y mae nifer o bethau yn aros heb eu gwneud, nifer o'r awgrymiadau da a wnaed yn y cyfarfod cyhoeddus ar 8 Tachwedd 1991 heb eto weld golau dydd.

Er mwyn rhoi'r gwaith a ddechreuwyd mor wych ar seiliau cadarn gofynnir felly i bawb a oedd yn bresennol yng nghyfarfod 8 Tachwedd 1991 (a'r rhai oedd yn methu bod yno) i ail-ymgynull yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, am 7 p.m., nos Wener, 20 Mawrth 1992.

Prif dasgau'r noson fydd:

- (i) adolygu'r cynnydd a wnaed ers mis Tachwedd;
- (ii) penderfynu manylion y drefn olygyddol newydd a weithreda o fis Ebrill 1992;
- (iii) sefydlu Pwyllgor Llywio *Eco'r Wyddfa* yn ffurfiol a phennu ei faes llafur.

Cadeirir y cyfarfod gan Arwel Jones, Penisarwaun.

ECO'R WYDDFA

Neges Pwysig i bawb oedd yng Nghyfarfod Argyfwng Eco'r Wyddfa ar Dachwedd 8fed, 1991

Dewch eto i gyfarfod pellach am 7 pm, Nos Wener, Mawrth 20fed, 1992 yn Ysgol Brynrefail, Llanrug i gwblhau'r gwaith a dechreuwyd y noson gyntaf.

Cewch lythyr i'ch atgoffa yn nes i'r amser.

TWEILEIT ZÔN

Yn dilyn llwyddiant 'Deial 999' y llynedd, bydd Bara Caws yn ôl yn y Clybiau eto eleni gyda sioe newydd sbon danlli — 'Tweileit Zôn' gan Twm Miall.

Wrth fentro i weld y 'Tweileit Zôn' bydd cyfle i bawb ddarganfod beth yn union ydi problem Robin Llwyn, a pha dystysgrif enillodd Ifan Ifans, a phwy yn union ydyw Llinos o Lanbabo. Yn sicr mae'n sioe na ddylai neb ei methu . . . yng nghwmni Catherine Aran, Maldwyn John, Bryn Fôn ac Eilir Jones.


Bydd y sioe yn eithio ledled Cymru o nos Fawrth, 17 Mawrth hyd at nos Sadwrn 18 Ebrill gan berfformio mewn 25 o ganolfannau. Yn ardal *Eco'r Wyddfa* perfformir yng Nghlwb Parc Gwyliau Glangwna, Caeathro, am 7.30, 17 Mawrth; a Chlwb Rygbi Caernarfon am 7.30, 15 Ebrill. Ceir manylion a thocynnau gan Bara Caws (0248) 355579.

J.R. PRITCHARD BONTNEWYDD

Ffôn:

Caernarfon 3507

Gwneuthurwyr
Ffenestri a Drysau
Ffoniwch am fanylion
a phrisiau cystadleuol



DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Clwb 100 Plaid Cymru: enillwyr mis Rhagyr — £10: Mrs Mari Griffith, 15 Tai Caradog; £8.50: Miss Angharad Williams, 29 Stryd Newydd. Mis Ionawr — £10: Mrs Eurwen Williams, 32 Hafod Olau; £8.50: Mr Gwilym Williams, Creffttau Elidir. Mis Chwefror — £10: Mrs Eirlys Gibson, 17 Hafod Olau; £8.50: Mr Gwyn Parri, Cynefin.

Merched y Wawr: Daeth nifer dda o'r aelodau i'r cyfarfod mis Chwefror ac roedd un wraig o Sydney, Awstralia, sef Mrs Grace Robers, chwaer i Mrs Glenys Williams, Ty'n Clwt, yn bresennol. Croesawyd Mrs Jane Jones, Rhydfadog, yn ôl ar ôl ei gwaelledd a chyfeiriwyd hefyd at Miss Elizabeth Griffith, Tai Caradog, sydd heb fod yn dda ei hiechyd. Y wraig wadd oedd Miss Elen Wyn Jones, Ty'n y Fawnd, Dinorwig, a rhoddodd sgwrs am dri cerddor adnabyddus o'r ardal, sef Siân Wyn Gibson, Annette Bryn Parri, a Dafydd Wyn Williams. Roedd yn bleser gwrandao ar Miss Jones a diolchwyd iddi gan Eurwen Roberts a Jennie Williams. Enillwyd y raffl gan Jennie Williams. Cinio Gŵyl Ddewi fydd y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Ebrill 6, yng Ngwesty Ty'n Llan, Llandwrog.

Clwb Elidir: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn ar Ionawr 21 dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones, gyda Mrs Jennie E. Williams yn ein difyr. Gwesteion y te oedd Mrs Janet Bingham, Mrs Aileen M. Jones a Miss Eileen Williams. Rhoddwyd y raffl gan Miss Eilee Williams a'r enillydd oedd Mrs Jennie Williams. Estynnwyd croeso yn ôl wedi peth amser i Mrs Jane C. Hughes. Cafwyd rhodd sylweddol tuag at y Clwb gan Mr a Mrs Bobbie Williams, Tai Caradoc.

Cafwyd cyfarfod arall o'r Clwb ar Chwefror 4 pryd y cafwyd cwis diddorol iawn wedi ei drefnu gan Mrs Eve Braithwaite, a diolchwyd iddi gan Mrs Eirlys Ll. Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Jennie Williams, Mrs Jennie E. Williams a Mrs Jennie Cashman. Enillwyd y wobwr lwcus, rhoddedig gan Mrs Jennie Williams, gan Miss Eileen Williams. Estynnwyd croeso cynnes i Mrs Nansi Thomas yn ôl atom, a chydymdeimlwyd â Mrs Jennie Cashman ar golli ei brawd. Cafwyd rhodd o £10, yn ôl ei arfer bob blwyddyn, gan Mr Dafydd

Morris, Cefn Coch, a mawr yw ein diolch iddo.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys ar Chwefror 4, dan lywyddiaeth y Parch Tegid Roberts. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Miss Jean Moeller yn dangos sleidiau o'i gwyliau yn Seland Newydd. Diolchwyd i Miss Moeller gan Mrs Pat Hayers. Rhoddwyd y te gan Mrs Laura Pritchard a Mrs Nellie Pritchard. Enillydd y raffl oedd Mrs Gwyneth Price. Y Parchedig Geoffrey Hewitt fydd ein gŵr gwadd yn y cyfarfod nesaf ar Fawrth 3.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu y gangen ar Chwefror 3 yn y Ganolfan. Llywydd y noson oedd Mrs E. Lloyd Jones. Wedi ein cyfarch darllenodd y llythyr misol. Cafwyd adroddiad o'r Cyfarfod Blynnyddol a gynhaliwyd yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, gan Eirlys Williams a llongyfarchwyd Mrs B. Wyn Davies ar ennill tusw o flodau yn y cyfarfod.

Cafwyd noson ddiddorol gyda Jean Moeller yn dangos sleidiau o Seland Newydd a dynnwyd pan fu gyda Margaret ei ffrind yno ar wyliau. Diolchwyd i Miss Moeller gan Miss Beti Williams, hefyd i Mrs E. Lloyd Jones am y te a'r raffl, a enillwyd gan Miss Jean Moeller.

Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda swper yn y Ganolfan ar 2 Mawrth.

Seindorf: Llongyfarchiadau i ddau aelod ifanc o'r Seindorf ar eu llwyddiant. Cyflwynwyd Tarian Goffa John Childs i Alan Pritchard am ei ymdrech ragorol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; a chyflwynwyd Tarian Goffa Mr a Mrs O. H. Jones, Bronallt, i Siân Griffith fel yr un oedd wedi datblygu orau yn y seindorf ieuenctid.

Cynhaliwyd y pwyllgor blynnyddol, nos Sul, Ionawr 26. Diolchodd y cadeirydd i'r swyddogion a'r arweinyddion am eu gwaith drwy'r flwyddyn, a chroesawyd tri aelod newydd ar y pwyllgor, sef Barry Jones, Eifion Williams, Dafydd Wyn Evans ynghyd ag aelod o'r seindorf ieuenctid.

Cynhaliwyd cyngerdd blynnyddol y seindorf ieuenctid yn yr ysgol, nos Wener, Ionawr 31. Yn cymryd rhan gyda'r seindorf roedd Annette Bryn Parri a Siân Gibson. Cafwyd noson arbennig o dda a dymunwn ddiolch i Annette a Siân am eu cyfraniad ac

hefyd i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant ym mhencampwriaeth unawdau, deuawdau a phedwarawdau gogledd Cymru, a gynhaliwyd ym Mangor ar Chwefror 15 — Jennie Lyn Morris, 5ed unawd dan 10 oed. Richard Williams, 5ed unawd 12-15. Siân Griffith, 1; Gavin Saynor, 2; Euros Williams, 3; unawd 14-16 oed. Emily Roberts, 2il unawd 16-18. Siân Griffith, 2, aire varie 14-18. Eilir Williams ac Euros Williams, 3ydd deuawd 14-18.

Hoffem longyfarch hefyd yr

aelodau na fu yn llwyddiannus y tro hwn. Gwell lwc y tro nesaf, efallai.

Daeth anrhydedd arall i'r seindorf ieuenctid pan ofynwyd iddynt hwy, ynghyd â seindorf ieuenctid Porthaethwy, gynrychioli gogledd Cymru ym mhencampwriaeth Ewrop yn yr Alban, ddydd Sul y Pasg. Ond oherwydd bod nifer helaeth o'r ieuenctid yn aelodau o'r seindorf hyn byddant yn cystadlu yn Pontins y diwrnod blaenorol ac felly yn gwneud y siwrnai i'r Alban yn amhosibl.



Diolchiadau:

Dymuna Mrs E. A. Griffith a'r teulu, 15 Ffordd Deiniol, ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain, sef Mrs C. a. Jones, Llanfaircaereinion, yn 98 oed. Bu Mrs Jones yn byw yn Neiniolen am gyfnod gyda'i merch. Rhoddwyd i orffwys ym Mynwent Erwddwr, Llanfaircaereinion ar Ionawr 20.

Dymuna Mrs Blodwen Parry, 6 Bro Deiniol, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a'i holl ffrindiau, o bell ac agos, am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr iawn.

Carai Paula a Martin ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a

chymdogion, am yr anrhegion, arian a'r cardiau ar achlysur eu dyweddïad. — 5 Rhydfadog, Deiniolen.

PENILLION I'R CHWARELWR

Yn lleithder oer ei agor
A'i raff am fôn ei glun
Y naddodd hwn ei beswch
A'i nychdod, gyda'i gŵn,
A thinc ei ebill yn ei thro
Yn canu ei farwnad o.

I leithder oer ei ddaear
Dan gawod blodau Mai
Rhydd hwn i'r pridd ei beswch
A'i graith yn ôl i'r clai
A'r garreg las uwchben ei fedd
Yn ddistaw watwar tir ei hedd.

(Anfonwyd y penillion gan Now Jones (Chris), gynt o Ddeiniolen, trwy ganiatâd yr awdur T. J. Roberts, Llangefni, sydd yn wreiddiol o Ffestiniog.)

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

MODURDY PLAS BACH CAEATHRO

Ffôn: Caernarfon 2072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
— TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORHTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Y Gymdeithas Undebol: Nos Fercher, 4 Mawrth, bydd aelodau'r Gymdeithas yn dathlu dydd Gŵyl Ddewi ym Mwyty Tŷ Golchi. Y gŵr gwadd fydd y Parch H. Gwynfa Roberts.

Cydymdeimlad: Estynnir cydymdeimlad dwys â Mrs Inigo Jones, Rhiannon a Megan a'u teuluoedd yn eu profedigaeth lem o golli priod a thad annwyl.

Diolch: Dymuna Mrs Inigo Jones, Eilionwy, a'r teulu, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y rhoddion er cof tuag at Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd.

Plaid Cymru: Gohiriwyd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror tan nos Fercher, Mawrth 18. Cynhelir y cyfarfod yma yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch, ac fe ddaw Mary Vaughan Jones, Waunfawr, yno i roi sgwrs a dangos lluniau. Bydd croeso cynnes i ffrindiau ac aelodau.

Enillwyr diweddaraf y Clwb Cant yw — Rhagfyr: 1, Mrs Margaret Evans, Llys Eiddon; 2, Mrs Betty Peris Jones, Egryn. Ionawr: 1, Mrs Megan Williams, 5 Cwrt Menai, Y Felinheli; 2, Twrog Jones, 23 Glanffynnon.

Edrychwn ymlaen at ddathlu Gŵyl Ddewi gyda chyfeillion canghennau Deiniolen, Llanberis, Waunfawr a Dyffryn Ogwen yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, ar nos Wener, Chwefror 28.

Rydym fel cangen yn tristau o glywed am farwolaeth un o'n aelodau hynaf, Mr Inigo Jones, Eilionwy. Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â'i weddwr Mrs Annie Jones a'r merched yn eu profedigaeth. Cydymdeimlwn hefyd â Vera Williams, Awelon, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion at aelodau sy'n wael yn eu cartrefi ac mewn ysbytai gan ddymuno gwellhad buan i bawb ohonoch.

Gwella: Rydym yn falch o ddeall fod Gwyn Jones, Garth, yn gwella yn foddhaol wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Merched y Wawr: Bu cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd ar Chwefror 11, o dan lywyddiaeth Miss Phyllis Ellis.

Croesawyd Meinir Williams yn ôl ar ôl bod yn wael, ac anfonwyd cofion at yr aelodau sydd yn wael.

Gwnaed apêl am fwyd a chymorth

i weini yn y gegin yn Eisteddfod yr Urdd ar Fawrth 7. Darllenwyd cofnodion o'r pwyllgor cenedlaethol.

Croesawyd pedair aelod o gangen Dinas a ddaeth a baner dathlu 25 mlynedd y Mudiad gyda enwau canghennau'r rhanbarth arno, ac ychwanegwyd enw Llanrug gyda gwniadwaith o waith Ann Lloyd Griffith. Y wraig wadd oedd Mrs Megan Jones o Ben-y-groes, a wnaeth bedwar gosodiad o flodau ar themau'r Pasg a'r gwanwyn, ac yn cael ei chynorthwyo gan ei gŵr, y Parch Noel Jones, a roddodd ddarlleniadau o'r Beibl yn gysylltiedig â'r gosodiadau. Rafflwyd y cynnwys ar y diwedd a'r enillwyr oedd Eirlys Roberts, Charlotte Evans, Olwen Huws, Meinir Williams a Menna Williams. Diolchwyd gan Mrs Ann Thomas ac i'r merched a ddarparodd y baned gan Olwen Llywelyn.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 10, i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda 'Rhannu a Blasu' yn dlyn gyda sgwrs gan Dafydd Whiteside Thomas.

Clwb Ieuencid: Mae llawer o'r aelodau wedi cymryd rhan mewn cystadlaethau pêl-droed, pêl-rwyd, snwcer a dawnsio disco ers dechrau'r flwyddyn newydd. Cawsom cwis fideo a thorri ar wydr a lledr ddiwedd mis Ionawr, a bu Wendy Jones acw yn trin gwallt yn nechrau mis Chwefror.

Er bod swildod mawr wedi dod dros llawer o'r aelodau ar noson o 'Karaoke' bu'r noson honno yn llwyddiannus hefyd.

Bu dau aelod hyn o'r Clwb mewn cyfarfod 'Atal Troseddau' yng Nghaernarfon ar nos Fercher Chwefror 26.

Ar y rhaglen ar hyn o bryd mae cystadlaethau sgets, ffotograffiaeth a ffug eisteddfod ym Mhenryndeu-draeth. Mae yna benwythnos yng Nglanllyn wedi ei drefnu a canwio ym Mhlas Menai ddiwedd mis Mawrth.

Llongyfarchiadau i Sera Thomas a Caren Roberts am ennill drwy Wynedd yng nghystadleuaeth dawnsio disco Cymdeithas Clybiau Ieuencid Cymru yn Llanberis ar nos Fawrth, 11 Chwefror ac hefyd yng nghystadleuaeth Arfon yn y 'Dome' ar nos Iau, 13 Chwefror.

Diolch i Dawn Owen am eu hyfforddi am wythnosau lawer ar gyfer y cystadlaethau.

Llongyfarchiadau hefyd i Sophie Evans, gynt o Lanrug, am fynd

drwedd i'r cystadlaethau dawnsio disco Gwynedd.

Diolch: Carwn ddiolch am y cardiau, y galwadau ffôn, a'r ymweliadau a'm cartref gan y rhai hynny a ddangosodd eu cydymdeimlad tuag ataf pan gollais fy mam. Diolch yn ddiffuant — Eifion Wyn Roberts, Nant-y-Glyn.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Owen Humphries, 16 Bro Rhyddallt, ar ddod yn hen daid a hen nain am y tro cyntaf. Ganwyd eu gorwyr cyntaf i ferch Mrs Olive Thomas, merch Mr a Mrs Humphries. Mae merch Mrs Thomas erbyn hyn wedi ymgartrefu yn Llanddaniel, Ynys Môn.

Ysgol Gynradd Llanrug

Croeso'n ôl: Rydym yn falch o gael croesawu Mrs Meinir Williams ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Peirianneg car: Bu un o weithwyr Garej yr Hafod yn y Dosbarth Derbyn yn dangos elfennau syml gyriant car, a'r modd y mae cerbydau'n symud.

Ymweld â'r ddeorfa: Croesawyd plant blwyddyn pedwar i ddeorfa Crawia gan Mr Gwynfor Jones ar ran y Gymdeithas Pysgota leol. Fel rhan o'n gwaith thema ar 'Dŵr' cafodd y disgyblion gyfle i weld wyau a mag

brithyll brown yn ogystal â brithyll enfys hyd at dri phwys mewn tanciau. Cawsant esboniad ar natur ac amcan y ddeorfa.

Ffair lyfrau: Cynhaliwyd Ffair Lyfrau ar Chwefror 10, dan ofal Ffrindiau Ysgol Llanrug. Cafwyd cyfle i brynu ac archebu llyfrau plant a chael paned wrth wyllo fideo o'r plant hynaf yng Nglanllyn. Llwyddwyd i werthu gwerth £393 o lyfrau Saesneg, gan sicrhau elw o £216 i'r ysgol ei wario ar lyfrau newydd. Cafodd y rhieni gyfle i weld y gyfres newydd 'Eye Witness', cyfres gyfeirio newydd sbon £550.

Mici Plwm yn galw heibio: Fore Chwefror 2, daeth Mici Plwm, neu 'Plwmsan' i'r plant, i godi hwyl wrth hysbysebu gweithgareddau'r Urdd yng Nglanllyn a Llangrannog. Pwysleisiai fod lle i bob plentyn yn yr Urdd beth bynnag ei ddawn a'i allu.

Gemau: Aeth y timau 'B' mewn pêl-droed a phêl-rwyd i gystadlu'n erbyn timau cyfatebol yn Ysgol y Gelli, Caernarfon ar Ionawr 31, a dychwelyd gyda chanlyniadau cyfartal — pêl-rwyd: 3-3; pêl-droed: 1-1.



Dyma Ceren a Sera yn perfformio eu dawns fuddugol yn y dawnsio disgo.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon

5754

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Eglwys St. Mair: Llongyfarchiadau mawr i Dafydd, Arwyn ac Iwan Jones, 5 Bro Elidir ar gael eu confyrmio gan Esgob Bangor mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Crist, Llandinorwig, ar nos Sul, Chwefror 23.

Wrth i ni fynd i mewn i fis Mawrth rydym hefyd yn cychwyn ar dymor y Grawys. Bydd trefn ein gwasanaethau am fis Mawrth yn dilyn ein patrwm arferol, sef fel a ganlyn — Mawrth 1: Cymun Bendigaid am 3.45; 8: Gosber am 3.45; 22: Gosber am 3.45; ac yna i ddiweddu'r mis gwasanaeth ar y cyd gyda aelodau Crist Llandinorwig mewn Gwasanaeth Gosber am 5 ar Mawrth 29.

Wrth ddiolch i Mrs Glenys Jones, 4 Bro Elidir am lanhau'r Eglwys dros y misoedd diwethaf cyfrifoldeb Mrs D. Williams, Bron Eilian, fydd gwneud y gwaith yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill. Diolch ymlaen llaw iddi hi.

Mae tipyn o gwyno wedi bod yn ddiweddar yn arbenig oherwydd y ffliw. Felly adferiad buan i bawb nad sydd yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd.

Wrth i'r Eco fynd i'r wasg, deallwn am farwolaeth Mr John Roberts, gynt o 3 Maes Eilian. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu ef a'i ddiweddar briod yn cartrefu yng Nghaernarfon. Estynwn ein cydymdeimlad a'r teulu yn eu profedigaeth.

Perfformioo dwy ddrama fer: Dyma'r her y mae aelodau pwyllgor adloniant Dinorwig wei ei osod iddynt eu hunain. Mae'r ymarferion yn mynd rhagddynt ar bob nos Lun am 7 yn y Ganolfan. Y nod yw llwyfanu y dramâu hyn ar ddiwedd mis Mawrth. Os oes rhai yn dymuno ymuno yn yr hwyl yna dewch i'r ymarferion, nid oes rhaid wrth brofiad actio o'r blaen.

Cae Hwyl Haf: Cafodd y Cyng. Glyn Tomos gadarnhad swyddogol gan Brif Swyddog Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Arfon na fydd y pridd a gludwyd i'r Allt Ddu yn ddiweddar yn amharu ar weithgareddau Hwyl Haf. Roedd pryder yn leol ynglŷn â hyn. Yn ôl y Prif Swyddog rhyddhawyd y pridd yma o un o gynlluniau'r Cyngor, a phenderfynwyd ei gludo i Ddinorwig er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol ar y safle ad-ennill tir. Teimlad y Cyngor yw y dylid cryfhau'r gwaith plannu ar y safle a

gobeithir paratoi cynllun tirlunio pellach yn y dyfodol. Mae trafodaethau wedi cymryd lle yn ddiweddar ar baratoi maes parcio bychan oddi ar y ffordd, a phetai'r cynllun yma'n cymryd lle byddai angen pridd ar gyfer cynllun tirlunio i geisio cuddio'r maes parcio. Er gwerthfawrogi pryder y trigolion lleol dywed y Prif Swyddog mai dim ond canran fechan iawn o arwynebedd y cae sydd wedi cael ei gymryd i fyny gan y pridd ac nad oes perygl i ddyfodol Hwyl Haf ar y safle.

Hefyd mae swyddog o Adran Syrffewry Sir wedi cytuno i gyfarfod â'r Cyng Glyn Tomos i drafod cyflwr drwg y waliau ar bob ochr i'r ffordd drwy'r pentref.

Dathlu Gŵyl Ddewi: Mae'r Gymdeithas Lenyddol Undebol wedi trefnu i ddathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Côr Alawon Menai, ar nos Fawrth, Mawrth 3, am 7 yn y Ganolfan. Dylai od yn noson arbennig o dda gan bod y côr yma yn un hynod o dalentog. Mae'r pris mynediad yn 50c i bawb ar wahan i'r aelodau. Croeso cynnes i bawb.

Gair o ddiolch: Dymuna teulu y ddiweddar Mrs J. Williams, 12 Maes Eilian, ddiolch o galon i bawb, yn gyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch i'r meddygon a'r gwinyddesau lleol; y Deon Gwlad, y Parch Richard L. Owen; y Parch Tegid Roberts a'r Parch Aled Edwards; i Mr Glyn Tomos, St. Mair; Mrs Dilys Williams am ei gwasanaeth wrth yr organ; i'r merched am drefnu'r lluniaueth. Diolch arbennig i Richard a Dewi Davies o gwmni H. O. Davies, Bangor, am eu cymorth ac am wneud yr holl drefniadau. Diolch o galon i bawb.

Y Ganolfan: Mae'n siwr bod nifer ohonoch wedi sylwi ar y gwaith sydd wedi bod yn mynd ymlaen oddi mewn i'r Ganolfan yn ystod y ddau fis diwethaf. Criw o fechgyn Menter Fachwen sydd wedi bod wrthi'n gwneud gwaith plastro yn yr ystafell fawr, tu ôl i'r llwyfan, ac yn y gegin. Bellach mae'r gwaith bron a'i gwblhau ac mae'n werth ei weld. Da o beth fyddai trefnu noson agored yn y dyfodol agos er mwyn i bawb o'r pentref weld y gwaith ardderchog sydd wedi ei wneud. Beth amdani

pwyllgor y Ganolfan? Hefyd mae carped newydd wedi ei osod i lawr yn yr ystafell snwcer. Mae'n ystafell hynod o glyd yn awr, ac yn welliant mawr ar yr hyn oedd hi o'r blaen. Buddiol iawn yw i ni yma gydnabod yr oriau mawr y mae Mr Rennelol Williams wedi ei roi tuag at sicrhau bod popeth yn cael ei wneud er budd y Ganolfan. Fel arfer nid oes dim yn ormod iddo ac mae bob amser yn barod iawn ei gymwynas. Mae person o'r fath yn brin iawn yn ein cymdeithas ni heddiw ac o'r herwydd rydym yn ffodus iawn o'i gael yma yn Ninorwig.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)

Llongyfarchiadau i Einir Parry, Morawel, ar ei dyweddian ag Euros Davies o Bylchau, Llansannan.

SGIWRAIG ADDAWOL



Tra roedd Michael yn cael cryn lwyddiant daeth clod hefyd i'w chwaer Caitlin Wroe. Daeth y newyddion yn ddiweddar fod Caitlin wedi ei dewis i fod yn aelod o dîm sgîo Prydain. A ydym yn ymwybodol o'r talentau sy' o'n cwrpas tybed, neu a ydym ni'n dal i feddwl mai dim ond pêl-droed sy'n bwysig?

Ffurflenni Llysoedd Ynadon

Y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gobeithio na fydd gormod o ddefnyddio ar ffrwyth eu cynllun diweddaraf!

Ar hyn o bryd, llai na 10% o holl ffurflenni'r llysoedd ynadon sydd ar gael yn Gymraeg, ond, gyda'r cynllun hwn bydd y gwaith o gyfieithu'r holl ffurflenni sy'n weddill yn dechrau ar unwaith.

Mr Dewi Davies, Clerc Pwyllgor Llysoedd Ynadon Dyfed, a fu'n trafod yr angen gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn y lle cyntaf, ac ef a'i bwyllgor biau'r clod am bwysu ar i'r gwaith fynd yn ei flaen. Aed ati hefyd, yn llwyddiannus, i ddarbwylllo'r Swyddfa Gymreig a'r Swyddfa Gartref o'n angen.

Yr Athro Derec Llwyd Morgan o Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, fydd yn arolygu'r gwaith cyfieithu, mewn ymgynghoriad ag aelodau o Adran y Gyfraith yn y Coleg. Bwrdd yr Iaith Gymraeg fydd yn llywio'r cynllun; a'r gobaith ydyw cwblhau rhan gyntaf y gwaith erbyn Mehefin 1992.

Y mae'r cynllun wedi cael sêl bendith holl asiantaethau'r Gyfraith sy'n geithredu yng Nghymru, gan gynnwys y Llysoedd Ynadon, Gwasanaeth Eryl y Goron a'r Heddluoedd.

'Mae hwn yn gynllun pwysig iawn, a bydd y gwaith, ar ôl ei gwblhau, yn hwyluso cryn dipyn ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yng ngweinyddiaeth Llysoedd Ynadon Cymru', meddai John Walter Jones, Cyfarwyddwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

'Gwn fod Dewi Davies a'i bwyllgor wedi gweithio'n hir ac yn ddygn i hybu dwyieithrwydd yng ngwaith y Llysoedd Ynadon, yn enwedig yn eu hymwneud â'r cyhoedd. Braf yw gweld eu hymdrechion yn dechrau dwyn ffrwyth.

'Rwyf yn falch iawn bod Coleg Aberystwyth yn ymgymryd â'r gwaith cyfieithu. Fel ein cynllun CYSILL, sy'n paratoi pecyn gwirio sillafu Cymraeg, dyma enghraifft ardderchog arall o gydweithio rhwng adrannau gwahanol o fewn coleg prifysgol, a rhwng yr adrannau hynny a'r sector cyhoeddus, er mwyn darparu cynnyrch ymarferol i'w defnyddio gan y cyhoedd.'

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

SIOP

Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN

GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi Meinciau Concridd a Phren
Cynnal a Chadw Planters Concridd a Phren
Plannu Coed Corachod

CABS LLANRUG



C'fon 5951

**Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos**



**THE
SEIONT
MANOR
HOTEL**

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDDEN

**Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.
I glywed mwy Ffoniwch 673366 a gofynnwch am Maggie**

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell



**I DDYSGU
DREIFIO EFO
STAN**

(Ysgol Yrru Rhiwen)

Ffoniwch

Bangor

364143

DRAENOG



Llongyfarchiadau i fandiau'r fro ar eu llwyddiant diweddar — rhai ar garreg eu haelwyd ac eraill ymhell oddi cartref. Aeth un band mor bell â cheisio cael gwared ag un o'i chwaraewyr trwy ei adael mewn caffi ar ochr y draffordd. Ond yn ffodus, fe ddathpwyd o hyd iddo yn reit fuan — mae'n anodd cuddio gwallt mor fflamgoch ag un ____!

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

MEDWEN

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Ffoniwch 78376 i drefnu amser

Castell Cidwm



**BETWS GARMON
Ffôn: Waunfawr 243**

Dewch am wledd ym
MWYTY'R PYSGOTWR

ar lan Llyn Cwellyn lle diddorol, gwahanol, braf

ac am baned o goffi a theisen hufen mae croeso i deuluoedd a phlant yn
CAFFI'R BWTHYN



**ERYRI
ORGANIG**

**LLANFAGLAN
Ffôn: C'fon 76905
Rhwyng 5 a 7 yr hwyr**

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaiith ★ Bwydydd Hylif

**★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'**



**Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Ceredigion, Aberystwyth
Awst 1-8, 1992**

NEWYDDION DDA! NEWYDDION DDA! NEWYDDION DDA!
Mae Cardis Ceredigion yn cynnig gostyngiad o 20% ar y Pris Mynediad i Faes yr Eisteddfod i grwpiau o 20 neu fwy.
Dyma Gyfle gwyh i gymdeithasau ledled Cymru drefnu taith i'r Eisteddfod, ac ar yr un pryd i godi arian i'r gymdeithas honno.

★ Tocynnau i'w dosbarthu o flaen llaw i osgoi unrhyw drafferthion

★ Cyfle i fwynhau'r wledd yng nghwmni ffrindiau
Am ffurflen gais a manylion llawn, cwblhewch yr isod, a'i ddychwelyd at **Swyddog Marchnata, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 40 Parc Tŷ Glas, Llanishen Caerdydd CF4 5WU.**

Enw.....

Cyfeiriad.....



Rhif Ffôn.....

Os ydych yn perthyn i gymdeithas arbennig, yna nodwch enw'r gymdeithas

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

**Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.**

Dyddiadur y Mis

MAWRTH

1 Sul. Gŵyl Ddewi. Dinorwig: Eglwys y Santes Fair — Cymun Bendigaidd am 3.45.

2 Llun. Deiniolen: Sefydliad y Merched — dathlu Gŵyl Ddewi yn y Ganolfan. **Waunfawr:** Y Gymdeithas Lenynyddol yn y Ganolfan am 7.00.

3 Mawrth. Deiniolen: Undeb y Mamau am 7. **Penisarwaun:** Yr Urdd — gwneud crempog. **Dinorwig:** Y Gymdeithas Undebol — dathlu Gŵyl Ddewi yn y Ganolfan gyda Chôr Alawon Menai, am 7.

4 Mercher. Llanrug: Y Gymdeithas Lenyddol — dathlu Gŵyl Ddewi ym Mwyty Tŷ Golchi.

5 Iau. Bethel: Cantorion Elidir (ymarfer) yn yr Ysgol Gynradd am 7.30. **Ysgol Brynrefail:** Cyfeillion yr Ysgol — dathlu Gŵyl Ddewi. **Yr ardal:** Antur Padarn yn Angorfa Llanberis am 7.00.

6 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8. **Yr Ardal:** Clwb Eryri — swper Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis am 7.30. **Deiniolen:** Merched y Wawr — cinio Gŵyl Ddewi yn Ty'n Llan, Llandwrog. **Bangor:** Coleg Prifysgol Gogledd Cymru — cyngerdd Gŵyl Ddewi am 7.30. **Bethel:** Yr Urdd — Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd am 6.30.

7 Sadwrn. Yr Ardal: Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail. **8 Sul. Dinorwig:** Eglwys y Santes Fair — Gosber am 3.45.

10 Mawrth. Penisarwaun: Yr Urdd — Mrs Ann Thomas. **Llanrug:** Merched y Wawr —

dathlu Gŵyl Ddewi — noson Rhannu a Blasu a sgwrs gan Dafydd Whiteside Thomas.

12 Iau. Cwm y Glo: Undeb y Mamau — Cymun y Grawys yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug. **Bethel:** Cantorion Elidir yn yr Ysgol Gynradd am 7.30.

13 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.

15 Sul. Dinorwig: Eglwys y Santes Fair — Cymun Teuluol am 10.

16 a 17 Llun a Mawrth. Ysgol Brynrefail: cyflwyniad gan Gwmni'r Frân Wen.

18 Mercher. Penisarwaun: Yr Urdd — trip i'r Ganolfan Hamdden.

Llanrug: Plaid Cymru — Sgwrs a Llun gan Mary Vaughan Jones, yn y Sefydliad Coffa am 7.30.

19 Iau. Bethel: Cantorion Elidir yn yr Ysgol Gynradd am 7.30.

20 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8. **Cwm y Glo:** Bingo yn Neuadd yr Ysgol am 7.

22 Sul. Dinorwig: Eglwys y Santes Fair — Gosber am 3.45.

24 Mawrth. Penisarwaun: Yr Urdd — gwaith llaw.

26 Iau. Bethel: Cantorion Elidir yn yr Ysgol Gynradd am 7.30. **Ysgol Brynrefail:** Cyfeillion yr Ysgol — Gyrfa Chwist.

27 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.


29 Sul. Dinorwig: Eglwys y Santes Fair — Gwasanaeth Gosber am 5.

30 Llun. Llanrug: Tombola yn Ystafell y Band.

31 Mawrth. Penisarwaun: Yr Urdd — Mr Richard Jones, Bethel.

Yr Ardal: Gŵyl Ddrama Sefydliad y Merched yn y Felinheli.

CROESAIR MAWRTH




AR DRAWS

- Edrych am wybodaeth (8)
- Nid oes well! (5)
- Yn brydlon (2,5)
- Ymlacio hwyrach (7)
- Nest gymysglyd (4)
- Newid gwleidyddol llwyr (7)
- Curo 11 l Lawr yng Nghwpan yr FA (7)
- 'Melys — mwy' (4)
- Amser cysgu, siwr iawn (3,4)
- A fu i Samiwel oleuo hon tybed (4,3)
- Crefu (5)
- Nid papur yw sofron bellach (4,4)

I LAWYR

- Ysgol Dolgellau (1,5)
- 2 beint o ddiod cynnes (5,1,2)
- Mab y Tad (4)
- 'Cododd ei chwt, chwt, Ac i ffrwd â hi' (3,3)
- '—, — yn China' (4)
- Ceisio cael y baban i gysgu eto eto (3,3)
- Yn rhy dymherus ei natur (7)
- Colli i 14 Ar Draws yn rownd 3 (7)
- Ad-dalu'r golled (8)
- Mae'n wyrdd gan — i'r Jonsiaid (6)
- Ardal Rhos a'r cyffiniau (6)
- Yr un profiad a geid erstalwm (1,5)
- Fel sant! (4)
- Cloi'r weddi (4)

ATEBION CHWEFROR



Triarddeg o ymgeiswyr — rhif anlwcus i dair, oherwydd roedd mân gamgymeriadau yn eu croeseiriau hwy, e.e. 'sachlian' oedd yn gywir, nid 'sachwisg'; 'clasur' nid 'claddur' a 'gwyn' nid 'cŵan'! Gadawyd deg felly a'u hatebion yn berffaith gywir (caniatwyd 'real' neu 'rial', 'ladi' neu 'ledi' yn 3 ac 19 i lawr.) Yr enw cywir allan o'r het y tro hwn yw: **Jean M. Hughes-Jones, Llys Gwilym, Pencaerau, Rhiw.** Ac i'r ymgeisydd a anfonodd ymgais gywir o'r RHYL — cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad y tro nesaf!

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Cwmni

THEATR

Gwynedd

yn cyflwyno

"EXCELSIOR"

gan Saunders Lewis

Cyfarwyddwr: Graham Laker

Cynllunydd: Martin Morley

i'w gweld yn eich ardal chwi:

Theatr Gwynedd, Bangor
Nos Fercher — Nos Sadwrn
18 — 21 Mawrth
a Nos Fawrth — Nos Sadwrn
24 — 28 Mawrth
7.30 y.h.

Archebwch eich tocynnau yn awr!

Swyddfa Docynnau: Bangor (0248) 351708

CHWARAEON

PLEIDIOL WYF I'M GWLAD(?)

Fel un sy'n mynychu y mwyafrif o gemau rhyngwladol pêl-droed a rygbi Cymru yn ystod y tymhorau diwethaf, mae un tueddiad sy'n suro y profiad i mi — y rhwyg 'Gog' a'r 'Hwntw' yw hynny. Yn waeth na hynny, yn y gemau pêl-droed ymddengys bod rhyfel barhaol rhwng cefnogwyr Caerdydd, Abertawe a Wrecsam.

Gyda perfformiadau simsan y tîm rygbi cenedlaethol mae'r rhwyg 'gorllewin-dwyrain' ym myd y bêl hirgron yn ddiahebol o amlwg a sur. Yr hyn sy'n drist yw mai ni'r Cymry sy'n creu y rhwygiadau hyn. Mae'r ddadl chwerw ynglŷn â'r Gynghrair Bêl-droed Genedlaethol yn parhau â'r traddodiad.

Mae cryn wrthwynebiad personol, o rai mannau, tuag at Alun Evans, ysgrifennydd y Gymdeithas Bêl-droed. Yn anffodus, nid yw yn berson sy'n creu awyrgylch iachus yn gyhoeddus, ond serch hynny nid ei ddyfodol ef sydd yn y fantol ond dyfodol pêl-droed Cymru ar bob lefel. Y mae'r cynllun arfaethedig yn dylanwadu ar bob haen o bêl-droed Gymreig, nid yr wyth clwb mawr bondigrybiwl yn unig.

Yn bersonol teimlaf mai'r Cynghrair Cenedlaethol yw'r fricsen hanfodol olaf yn fframwaith datblygiad pêl-droed Cymru. Trueni na chafodd y clybiau ar bob lefel gyfle i fynegi barn. Cynghrair leol, sirol, rhanbarthol, ac yna cynghrair cenedlaethol — onid hyn yw'r datblygiad naturiol? Pwy yw'r tîm gorau yng Nghymru — Bangor, Merthyr, Bae Colwyn . . . ? Pa well ffordd i ddarganfod hynny?

Gyda llaw, gyda dyfodiad y

gynghrair newydd oni ddaeth hi'n amser i ni wahardd timau o Loegr rhag cystadlu yng Nghwpan Cymru? A chyn i chwi weiddi'n ôl, rhwystro timau Cymreig rhag cystadlu yng Nghwpan Lloegr.

Arwyddair Cymdeithas Pêl-droed Cymru yw 'Gorau chwarae, cyd-chwarae'. Tybed?

GENWAIR AR LAN YR AFON gyda Huw Hughes

Ar drothwy tymor arall braf yw cael edrych yn ôl ar y datblygiadau a fydd yn effeithio arnom fel Cymdeithas Pysgota. Y prif ddatblygiad yw cwblhau adeilad y ddeorfa ar lan y Seiont, ger Pont Cawia. Erbyn hyn mae bron i 30,000 o frithyll bychan yn y cafnau a phan fyddant wedi cyrraedd eu maint penodedig fe'i rhyddheir i lynnoedd Padarn a'r Dywarchen. Gobeithiwn y gellir tyfu rhai ohonynt i ryw ddau bwys. Os yn llwyddiannus fe allwn gynnig pysgota am frithyll brown ac enfys ar y Dywarchen. Mae cryn alw gan ei haelodau, ac ymwelwyr, am

Daw y tlws i lawr o'r mynydd i'r gwastadedd y mis yma. Yn ddiweddar gwelwyd cryn wellhad ym mherfformiadau tîm cyntaf pêl-droed Llanrug. Mae perfformiadau dau o'r chwaraewyr wedi bod yn allweddol yn y rhediad llwyddiannus, sy'n eu gosod ar frig Cynghrair Gwynedd ar hyn o bryd. Mae Stephen Owen yn hynod o gadarn rhwng y pyst, ac yn rhoi cryn hyder i'r amddiffyn. O drwch blewyn, mae Tlws Chwefror yn mynd i **RICHARD WILLIAMS**. Mae ei chwarae grymus ac ymosodol wedi cyflwyno tipyn o dân ac arweiniad i'r llinell flaen. O gofio ei lu o anafiadau mewn tymhorau blaenorol, mae hyn dipyn o gamp. Gyda Gwilym — y brawd mawr — yn llenwi'r gôl i Ddeiniolen, tybed a welwn ni ddwbwl teuluol cyn diwedd y tymor?



Cyflwynwyd Tlws y Mis Eco'r Wyddfa, am fis Ionawr, i Gethin Williams o Glwb Snwcer Deiniolen, gan y Golygydd Chwaraeon.

Dŷ sydd ar y dde i'r bont ar y ffordd ac i lawr at Afon Swan.

Yn anffodus mae yna un elfen sur ar ddechrau tymor — mae cryn boendod ynglŷn â physgota ar dir fferm y Greuor, Llanrug. Mae'r hawl pysgota yma wedi bod yn nwylo'r Gymdeithas ers tua 30 mlynedd ac fe ddaeth y brydles ddiwethaf i ben rhyw flwyddyn yn ôl. Er fod y Gymdeithas yn dal i dalu'r rhent nid yw'r perchnogion presennol — 'Hamdden' (Dŵr Cymru) sydd yn berchnogion Llwyn Brain (Seiont Manor) — yn awyddus i drafod gyda'r Gymdeithas ynglŷn ag adnewyddu'r brydles. A oes bwriad i geisio gwahardd aelodau'r Gymdeithas rhag pysgota ar dir y Greuor? Yn ôl ein cyfreithwyr — os yw'r rhent yn cael ei dalu mae'n bwysig i ddal i 'sgota' er mwyn cadw'n hawliau.

CLYWED WRTH BASIO . . .

- Cafwyd perfformiad clodwiw gan **David Thomas** o Lanrug, nofiwr addawol yn y dull broga. Llwyddodd i gipio'r fedal arian ym Mhencampwriaethau Cenedlaethol yr Urdd i aelodau dan 15 oed. Yn yr un gystadleuaeth daeth **Catrin Jones** o Lanrug yn bedwerydd yn y ras ar y cefn. Llonyfarchiadau i'r ddau ohonynt.



David Thomas



Catrin Jones

- Mae argoelion fod **John Williams** (Cefn), o dîm pêl-droed Llanrug, yn weddol gyfforddus wedi'r

ddamwain ddrwg i'w benglin yn ddiweddar. Dymunwn yn dda iddo a gobeithiwn ei weld yn ei ôl yng nghanol y tacio a'r mwd. Cofia Dave McKay, John. Sut beth ydy bod adref ar bnawn Sadwrn dwad?



Colin Jones

- Bydd **Colin Jones** (Pontrug) yn dod a chlod i'r cylch unwaith eto. Er mai pedwerydd oedd Colin, allan o 80 o redwyr, ym Mhencampwriaeth Iau Prydain yn ddiweddar, roedd ei berfformiad yn ddigon da i ennill lle iddo yn nhîm Prydain ar gyfer Pencampwriaeth Traws Gwlad y Byd a gynhelir yn Boston, U.D.A., ym mis Mawrth. Gobeithio y gall roddi 'strangle' ar y rhedwyr eraill, a chael

- clamp o 'tea party' pan ddaw adra'.
- Er mwyn cryfhau y garfan ar gyfer gemau canol yr wythnos ar ddiwedd y tymor, mae Llanberis wedi arwyddo tri o chwaraewyr o glwb Porthmadog. Bydd **Mark Williams** a **Colin Saynor** yn dychwelyd i'w pentref genedigol. Y trydydd yw **Geraint Jones** (Ger Siop), un o brif chwaraewyr y gogledd. Ar wahân i dimau Porthmadog a Llanberis mae Geraint yn chwarae'n achlysurol i dîm Dinas Bangor yng nghynghrair yr H.F.S. Loans. Ydy record Jack Nicklaus o berthyn i'r nifer mwyaf o glybiau mewn perygl tybed?

CEWRI'R COCHION

Daeth llyfr hynod o ddiffrid a diddorol o'r wasg yn ddiweddar ac fe fu Arwel Jones, awdur *Y Darans* yn ei adolygu gan gyflwyno i ni y stori ryfeddol — gyda chysylltiadau lleol — am *Hanes y Cap Colledig*. Gwelir adolygiad Arwel ar dudalen 3.

Yn y llyfr hwn fe gyfyd ambell i stori a champ rhyfeddol. Dyma ychydig ohonynt a thybed a ellwch chwi ddyfalu pa chwaraewyr rhyngwladol sy' dan sylw?

1. Pa bêldroediwr enwog haerai ei fod yn faeswr-wrth-gefn i Forgannwg yn y gêm pan gledrodd Gary Sobers chwech 6 pelawd ar Sain Helen yn 1967?
2. Pwy chwaraeodd dros ei wlad yn erbyn Lloegr, tra'n byw yn Nyffryn Peris?
3. Pa chwaraewr aeth ar goll wrth groesi'r môr ar ei ffordd i gêm yn erbyn Iwerddon?
4. Pa chwaraewr rhyngwladol presennol sy'n chwarae i un o gyn-dimau ei dad?
5. Pa ddau gôlgeidwaid a fu'n cyd-chwarae fel amddiffynwyr i dîm ysgolion Llandudno? Fe gewch yr atebion gyferbyn.

DRAENOG



Mae Cyngor Arfon yn trefnu tair 'Noson i Gampwyr' yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Y nod yw codi

elw i gynnal cynllun datblygu chwaraeon y Cyngor. Cafwyd noson gyntaf addawol a hwyliog gyda **John Hollins**, cyn reolwr Chelsea, yn ŵr gwadd. Yn anffodus mynnai awdurdod ar bêl-droed ei alw'n 'Joan Collins'. Gobeithio y bydd rhywun wedi ei atgoffa mai nid 'Geraldine Davies' ond **Gerald Davies**, un o fewrion rygbi Cymru yw'r gŵr gwadd yn yr ail noson.

ATEBION Y CWIS PÊL-DROED

Gymru: 5. Neville Southall ac Eddie Niedzwiecki.
a mab i Roy Saunders — na chwaraeodd dros
ddisgyn dros ochr y llong; 4. Dean Saunders (Lampw)
yr 'engine room' a thylbwl i swyddogion iddo
ddidoddefodd o salwch mŵr gan ddisgyn i gysgu yn
canrifi yn ôl; 3. Y dŵr Billy Meredith yn 1892 —
1. Trevor Ford; 2. Dr R. H. Mills-Roberts, yn 1892 —